

Dau Bentref: *Dwy Ymdrech*



Sefydlu Siop Gymunedol

Ym Methel cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ystod mis Mawrth i drafod y posibilrwydd o sefydlu siop gymunedol yn y pentref. Mae hyn yn dilyn rhannu holiaduron o dŷ i dŷ yn gofyn am farn y trigolion lleol. Daeth hanner cant o bobl i'r cyfarfod i gael gwybod yr ymateb i'r holiaduron. Yn ogystal, mae gŵr busnes lleol wedi cynnig syniadau – a chymorth i wireddu y freuddwyd. Hanes llawn ar dudalen 28.



Achub Eglwys Sant Padarn

Ers cael ar ddeall fod posib i Eglwys Sant Padarn, Llanberis gael ei chau, mae'r gymuned leol (gan gynnwys cyn drigolion a ffrindiau) wedi sefydlu grwp sy'n weithgar yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad a hefyd yn codi arian i dalu am adroddiad pensaernïol. Gwybodaeth lawn ar dudalen 12.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

RHIF 475
Ebrill 2019
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO:

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn	Copi i law	Bwn delu	Ble
Mai	Sul 21 Ebrill	Gwener 3 Mai	Llanrug
Meh	Sul 26 Mai	Gwener 7 Mehefin	Llanrug
Gorffennaf/Awst	Sul 23 Mehefin	Gwener 5 Gorffennaf	Llanrug

LLYTHYRAU

Bydd mis Awst 2019 yn dynodi
hanner canrif ers cau Chwarel
Dinorwig.

Annwyl Ddarllenwyr,
I goffau'r cau bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn dangos dwy ffilm o
archif y BBC (a filmiwyd yn ystod 1969), sef 'Ffarwel Rock' (ffilm
Gymraeg) a 'Dinorwig – The End of the Line' (ffilm Saesneg).
Bob dydd Sadwrn a bob dydd Sul o'r 13eg Ebrill hyd dydd Sul
14eg Gorffennaf bydd y ffilmiau yn cael eu dangos ar yr amseroedd
canlynol:-
2.20pm, 'Ffarwel Rock' (ffilm Gymraeg)
3.20pm, 'Dinorwig – The End of the Line' (ffilm Saesneg)
Ni fydd cost mynediad, ac ni fydd angen bwcio, ond awgrymaf eich
bod yn cysylltu â'r Amgueddfa ar y bore rhag ofn y bydd unrhyw
newid (rhif ffôn: 02920 573700).

Yn gywir,
Cadi Iolen (Curadur)
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

Diolch

Fel y gwyddoch bellach mae pris yr "Eco" wedi codi i bunt y rhifyn
(neu ddecupnt y flwyddyn o dalu ymlaen llaw, sy'n golygu un rhifyn
am ddim). Gyda diolch i chi gefnogwyr a darllenwyr rheolaidd ac
achlysurol am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd. Mae talu ymlaen
llaw o gymorth mawr i'r Trefnydd Ariannol a hefyd i'r llu sy'n
dosbarthu'r "Eco" o ddrws i ddrws. Gobeithio y byddwch yn parhau
i fwynhau'r arlwy a baratoir i chi dros y flwyddyn nesaf.

Cymry Pennsylvania.

Yn anffodus, oherwydd newidiadau munud olaf i rifyn Mawrth,
gadawyd allan enw awdur yr erthygl ar Gymry Pennsylvania o'r
fro. Gydag ymddiheuriadu i W. Arvon Roberts, Pwllheli. Mae'r
erthygl eisoes wedi ennyn diddordeb llawer o'r fro sydd efo
cysylltiadau Americanaidd. Gobeithio y cawn gyhoeddi rhai o'r
hanesion yn ystod y misoedd nesaf.

Trethi Lleol Cyngorau Cymuned y Fro

Rhoddwyd cryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau (y rhai cenedlaethol a chymdeithasol) at godiad o 5.8%
yn nhreth Cyngor Gwynedd am y flwyddyn ariannol 2019-20. Rhaid cofio fod y bil treth a anfonir
i bob perchennog eiddo yn cynnwys hefyd y dreth i gynnal yr Heddlu, a'r dreth yn ôl gofynion
unigol pob cyngor cymuned. Mae codiad o 7.74% yn anghenion yr Heddlu, 6.5% (ar gyfartaledd)
yn anghenion y cyngorau cymuned. Dyma yw gofynion ariannol cyngorau cymuned y fro o'u
cymharu â llynedd:

Cyngor	2018-19	2019-20
Llanberis	£24,000	£28,000
Llanddeiniolen	£26,500	£31,800
Llanrug	£42,000	£50,000
Waunfawr	£12,000	£12,000

Ar yr olwg gyntaf mae'n ymddangos fod gwahaniaeth sylweddol rhwng gofynion y pedwar cyngor
cymuned, ond rhaid cofio fod rhai o'r cyngorau lleol hyn yn derbyn mwy o gyfrifoldebau nac eraill
– er enghraifft, cynnal mynwent gyhoeddus a/neu gaeau chwarae.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£100: Di-enw, Llanberis

£50 : Er cof am Eric
Williams gan Mrs Muriel
Williams, Tregarth a
Mrs Dilys Williams,
Penisarwaun.

£25 : R E Williams,
Cranleigh; Gomer Davies,
Tregarth

£20 : Arwyn Thomas; Er
cof am Karon Pritchard,
gan y teulu.

£10 : Eluned Jones;
Marian Thomas,
Trawsfynydd; Ronnie
Williams, Aylestone;
Gwerfyl McCarthy,
Childwall; Di-enw,
Llanberis; Anna
Sidebotham, Whalley
Bridge; Er cof am
Christiana Roberts, 5
Hafan Elan, Llanrug.

£5: Di-enw, Llanberis; Er
cof am Donald Fraser, 6
Maes Padarn, Llanberis.

Paratoi ar gyfer Ffordd Osgoi Caernarfon



Mae trigolion y fro sy’n teithio ar wahanol ffyrdd tuag at dref Caernarfon wedi sylwi ar y gweithgarwch prysur sy’n digwydd yn ardal Caeathro/Pont Peblig a Phont Rug/Rhosbodrual. Torri coed yw’r prif waith sy’n digwydd yn yr ardaloedd hyn ar y funud. Ond i’r rhai ohonoch sy’n teithio ar Ffordd Bethel, mae’n siwr mai’r tomennydd pridd sy’n ymddangos a diflannu sydd wedi tynnu eich sylw (lluniau uchod).

Dyma gychwyn y gwaith archaeolegol sydd angen ei wneud ar hyd llwybr y ffordd newydd. Ar hyn o bryd mae’r gwaith yn cael ei wneud yn yr ardal o Groeslon Tyddyn Hen draw am Crug, ac y mae un enw diddorol yn gysylltiedig â’r ardal hon sy’n awgrymu y gall olion diddorol gael eu darganfod. Mewn amryw o ddogfennau gwahanol daw yr enw Gerlan/Corlan Tibbot i’r amlwg, ac yn un nodir ei fod rhwng Crug a’r pantle corsiog ble mae’r gwaith archaeolegol yn digwydd rwan. Ond pwy neu beth oedd Tibbot, ac a ddatgelir yr ateb wrth gloddio? Amser a ddengys.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Codiad o 5.8% am y flwyddyn ariannol nesaf yn nhreth Cyngor Gwynedd. Bydd perchnogion eiddo Band D yn talu £75.69 yn fwy na’r llynedd. Aelodau o bob plaid yn derbyn y codiad yn anfoddog, ac yn gosod y cyfrifoldeb (fel y mae pob cyngor lleol arall yng Nghymru) ar fesurau toriadau ariannol mileinig y llywodraeth Llundainig sy’n arwain at lai o gyllid i’w rannu i’r cynghorau gan Lywodraeth Cymru. Rhai cynghorwyr yn rhagweld y gallai cynghorau lleol fynd yn fethdalwyr ariannol os pery’r sefyllfa fel y mae. Gweler trethi’r cynghorau cymuned lleol ar dudalen 2.
- Mae’n ymddangos fod problem gorbwysedd mewn plant ifanc yn fwy o broblem yng Nghymru nac unrhyw ran arall o’r Deyrnas Unedig, gyda chwarter holl blant 4 a 5 oed yn cario gormod o bwysau. A dengys ymchwil mai plant mewn ardaloedd diffreintiedig sy’n debygol o ddioddef fwyaf.
- Meicroplastic. Ymchwil gan Brifysgol Bangor a mudiad Cyfeillion y Ddaear yn dangos fod llygredd amgylcheddol gan feicroplastic yn llawer mwy cyffredin nac a dybid. Ac y mae afon sy’n tarddu o fewn ein bro yn dangos lefelau rhyfeddol o uchel. Dangosodd yr ymchwil fod afon Cegin, sy’n llifo drwy Landdeiniolen, yn cynnwys 76 darn o feicroplastic ym mhob litr o ddwr- bron cymaint â’r afon Tafwys yn Llundain. A daw’r mwyafrif o’r meicroplastic o draul teiars ceir, o ddilladau ac o baent a ddefnyddir ar adeiladau a wyneb ffyrdd.
- Addysg. Bydd cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno yn 2022. Ac i baratoi ar gyfer hynny bydd athrawon yn cael un diwrnod ychwnaegol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd. Undebau’r athrawon yn croesawu y cyfle i athrawon gael hyfforddiant i baratoi ar gyfer y newidiadau, ond niferoedd o rieni yn beirniadu oherwydd y bydd galw arnynt i drefnu mwy o

- ofal plant – am chwe diwrnod yn hytrach na’r pump presennol.
- Afiechyd yn lladd coed ynn. Mae afiechyd o’r enw Chalara sy’n cael ei achosi gan ffwng o’r enw Hymenoscyphus fraxineus yn lladd yr onnen led-led Cymru. Cyrhaeddodd yr afiechyd wledydd Prydain o Ewrop ym mis Chwefror 2012, a bellach fe’i darganfuwyd ym mhob rhan o Brydain, gan gynnwys Ynys Manaw. Mae’n lladd coed ifanc ac yn gwanhau coed hŷn a’u gwneud yn fwy tebygol o farw o afiechydon eraill. Ond mae rhai coed ynn yn gwrthsefyll yr afiechyd, ac y mae gwyddonwyr yn eu hastudio i ddarganfod pam. Mae’n ymddangos mai Cymru sy’n dioddef waethaf o’r afiechyd. O rannu’r wlad yn sgwarau 10 cilometr, mae 80% o Gymru yn cynnwys yr afiechyd. Â choed ynn mor gyffredin, mae galw ar i chwi gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru os gwyddoch am goeden onnen sy’n dangos arwyddion o ddail yn marw a rhisgl yn briwio a hollti.
- Cyngor Gwynedd yn penderfynu o fwyafrif o 39 pleidlais i 20 y dylid rhoi heibio’r bwriad i israddio Canolfannau Iaith y sir. Mae hyn yn rhoi neges gadarn i Cabinet y Cyngor i barhau i ddiogelu ac atgyfnerthu gwasanaeth sy’n hanfodol i ddatblygu addysg Gymraeg; gwasanaeth a ganmolwyd gan Estyn yn ei adroddiad diweddaraf a ddywed fod trefn Gwynedd yn batrwm i siroedd eraill Cymru. Does ond gobeithio y bydd y Cabinet yn cadarnhau’r penderfyniad hollbwysig hwn yn eu cyfarfod ar yr 2il o Ebrill.
- ... a saga syrffedus gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Gwrthod cytundeb y Prif Weinidog am yr eilwaith, cyn i Lefarydd y Tŷ, John Bercow wrthod trydedd pleidlais ar yr un cytundeb gan ddefnyddio rheol yn dyddio o’r bymthegfed ganrif. Y Llywodraeth yn gorfod gofyn am estyniad o’r cyfnod gadael.....ac yr oedd y rhifyn hwn wedi mynd i’r wasg cyn gwybod y cam nesaf.

Ysgol Llanrug



Diwrnod y llyfr

Diwrnod y llyfr. Plant wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau.



Diwrnod Antur

Diwrnod ardderchog ar lyn Padarn a dringo ym Menllyn! Pawb wedi mwynhau bod allan yn yr awyr agored! Gwych!



Dosbarth Meithrin

Fel rhan o gynllun Pori drwy Stori, sy'n hybu rhieni i ddarllen gyda'i plant bu y dosbarth meithrin yn ffodus i dderbyn llyfr.



Ymweliad yr Heddlu

Fel rhan o thema y dosbarth Meithrin a Derbyn fe ddaeth PC Dylan i ymweld.



Parhad LLANRUG



Eglwys St Mihangel yn y Sefydliad Coffa

Mawrth 31, Sul y Mamau: Gwasanaeth ar y cyd yn Nant Peris am 10 y bore.

Ebrill 7fed: Eglwys Cafe am 10 y bore. Gwasanaeth anffurfiol gyda lluniaeth ysgafn a chrefftau.

Ebrill 19eg Dydd Gwener y Groglith: Eglwys cafe am10 y bore. Gwasanaeth anffurfiol gyda lluniaeth ysgafn a chrefftau.

Ebrill 21ain Sul y Pasg: Cymun Sanctaidd am 10 y bore.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb cant - Mawrth

- 1..Charles Jones, Dwyros
- 2..Vera Williams, Awelon

Llongyfarchiadau i Dylan Lloyd Jones Nant y Glyn sydd wedi ei apwyntio yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth gan yr Arglwydd Brif Ustus ar Gylchdaith Cymru i eistedd yn y Llys Teulu a Llys Sirol.

Capel y Rhos

Oedfaon mis Ebrill

7 – Y gweinidog, Parch Marcus Wyn Robinson

14 – Parch Cledwyn Williams

21 – Sul y Pasg – y Gweinidog

28 – Parch Eric Jones

Babi Newydd Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Lauren Jones, Glanffynnon, ar enedigaeth eu merch fach, Isla Non, wyres i Berwyn a Pat Jones, Pob bendith.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn yn arw gyda Meinir Williams, Bryn Moelyn, Ian, Glyn a Mark a'u teuluoedd yn eu profedigaeth fawr o golli mab a brawd, sef Dafydd Andrew, yn 54 mlwydd oed. Roedd Dafydd yn un o'r rhai cyntaf i ymuno ag Antur Waunfawr ac wedi cael bywyd anhygoel o hapus yno fel un teulu mawr. Roedd erbyn hyn yn byw yn ei gartref ei hun yng Nghaernarfon ac wrth ei fodd yn cael bod yn annibynnol. Person hyfryd ac annwyl, bob amser â gwen ar ei wyneb ac yn ffrind i bawb. Colled enfawr i chi i gyd fel teulu a chyfeillion.

Yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis, bu farw Betty Roberts ('Refail gynt) yn dilyn gwaeledd hir. Bu yn cartrefu yn Gaerwen am flynyddoedd ond wedi cael dod yn ôl i'w chynefin yn ei wythnosau olaf. Cofiwn atynt chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu, Nellie, Katie a John ac â'r wyrion a'r wyresau ar golli modryb hoffus

Yn dawel hefyd bu farw Rowland Williams, Bro Rhyddallt. Person addfwyn a charedig iawn. Colled fawr i'w deulu, cymdogion o ffrindiau

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Diana, Gareth a Mark Jeffs, 11 Stad Tal y bont, yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr a thad gofalus, sef John Jeffs. Brodor o Gaernarfon oedd John ond wedi cartrefu yma yn Llanrug ers blynyddoedd lawer. Cofiwn yn garedig atoch fel teulu, Diana, yr hogia a'u teuluoedd.

Priodas Aur Llongyfarchiadau mawr i Arwyn a Gwenda Roberts, Haddef, Ffordd yr Orsaf, ar ddathlu eu Priodas Aur

ar Fawrth y cyntaf. Hoffai'r ddau ddiolch yn arw i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gyfarchion mewn galwadau a chardiau.

Diolchiadau Fe ddymuna Meinir, Ian, Glyn a Mark a'r teulu oll ddiolch yn arw am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth fawr o golli Dafydd. Diolch am y geiriau caredig, galwadau personol a chardiau a dderbyniwyd. Mae'r rhoddion yn mynd i Antur Waunfawr ac i Feddygfa Waunfawr.

Diolch i Meinir Griffith am y trefniadau caredig a thrylwyr ac i'r Parch Casi Jones am ei gwasanaeth teimladwy yn yr Amlosgfa a'r cartref.

Diolch Hoffai Gwenno, Gethin, Robin a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli Karon, gan gymdogion, ffrindiau a'i chydweithwyr yn y fferyllfa. Diolch i bawb am eu haelioni. Casglwyd £2,500 tuag yr elusen Cancr y Fron a Ward Moelwyn er cof am Karon.

Diolch yn arbennig i Meinir am ei chymorth a'i threfniadau gofalus ac i'r Parch Marcus Robinson am wasanaeth hyfryd, diolch i Carys yr organyddes ac i Ann a Gwilym am eu teyrngedau.

Merched y Wawr Cychwynnwyd y noson gyd Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau a dymunwyd gwellhad i Carys Jones, Eirianwen a Menna. Llongyfarchwyd Pat ar ddod yn nain falch unwaith eto a diolchir iddi am drefnu ein noson i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant ac i Nan am ofalu am drefniadau'r cennin Pedr ar y byrddau. Bu Cinio'r Llywydd yn hynod llwyddiannus gyda'r lluniaeth a'r adloniant yn hynod o dda. Cyflwynwyd tusw o flodau i Meirwen ar y noson. Diolchwyd i bawb fu'n llafurio yng Nghaffi'r Urdd a mawr yw'r diolch i Carys Wyn am ei gwaith diflino. Bu'r bocsys brechdanau yn hynod o dderbyniol. Gan bod rhai bocsys heb eu gwerthu llwyddwyd i'w rhoi i fudiad sy'n helpu'r digartref ym Mangor. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn, Mai 11eg, am 9.30 y bore yn Ysgol Friars Bangor. Y gost yw £22. Yr artistiaid fydd Arfon Gwilym, Sioned Webb a Mair Tomos Ifans, Liz Saville Roberts AS, Alun Prithard yn sôn am ei waith yn Affrica a Chôr Meibion Bro Goronwy.

Atgoffir pawb am Brosiect Casglu Sbwriel ac Ailgylchu Meirwen. Bydd cofnod yn cael ei wneud yn fisol. Gwnaed cais gan Eirianwen am nwyddau glanweithdra i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon - nwyddau fel past dannedd, sebon ayyb.

Cyn ymestyn am yr arlwy a ddarparwyd ar ein cyfer gan Pat ac aelodau'r pwyllgor cafwyd sgwrs ddifyr gan Carys Wyn am ffordd o helpu'r rhai sy'n cael trafferth cysgu. Dangoswyd teclyn gan 'This works' sy'n hynod o lwyddiannus ac yn sicr wedi gweithio i Carys. Dim ond chwistrelliad go dda ar y gobennydd a dylai'ch helpu i gysgu'n braf. Yn sicr, roedd nifer o'r aelodau â diddordeb yn hyn. Cafwyd amser difyr wedyn i gael sgwrs gyda'n gilydd a fe wibiodd yr amser mor sydyn. Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau'r noson. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 9fed, yng nghwmni Dr Paula Roberts.

Clwb Clychau'r Grug Edrychir ymlaen at weld ein gilydd yn Pant Du, Penygroes, bnawn Gwener, Ebrill Sed, am 2.30 y pnawn. Anfonir ein cofion at Menna a Carys a dymunir Pasg Hapus i Glenys a Siencyn.

Marchnad Ogwen

Neuadd Ogwen, Bethesda

(Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen)

Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.00

Bwydydd • Crefftau • Lleol

www.marchnadogwen.co.uk






E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Côr Ysgol Gymuned Penisarwaun i Rannu Llwyfan Gyda Sêr Y Byd Opera

Nos Sadwrn, Mai 18, 7.00 y.h yng Nghadeirlan Bangor

Mae yna gryn gynnwrf yn Ysgol Gymuned Penisarawaun wrth i Gôr yr ysgol ymbaratoi i rannu llwyfan gyda'r canwr opera bydenwog Gwyn Hughes Jones a'i wraig, Stacey Wheeler mewn cyngerdd mawreddog yng Nghadeirlan Bangor ar nos Sadwrn Mai 18 i ddathlu canmlwyddiant elusen Achub y Plant.

Fel Llysgenhaddon yr elusen yng Nghymru, bydd y tenor o Lanbedrgoch a'r soprano o Bensylfania yn perfformio detholiad o arias a deuawdau poblogaidd yng nghwmni'r cerddor a'r pianydd amryddawn Annette Bryn Parri, a'r grŵp o hogia' lleol, Trio.

Yn ystod y cyngerdd ceir perfformiad arbennig o'r gân 'Mae 'Na Obaith' sydd wedi ei chyfansoddi yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Annette a'i gŵr, Gwyn Parri. Bydd y gân hefyd yn cael ei chyhoeddi ar CD gyda thraciau eraill fydd yn cynnwys caneuon gan Gôr yr ysgol, felly maen nhw yn mynd i fod yn sêr! Bydd y CD ar werth yn ystod y cyngerdd gyda'r elw yn mynd tuag at waith yr elusen.

Cynhelir y cyngerdd union ganrif, namyn diwrnod, i'r achlysur pan sefydlwyd elusen Achub y Plant ar Fai 19, 1919 yn Neuadd Frenhinol yr Albert gan ddwy chwaer o Sir Amwythig, Eglantyne Jebb a Dorothy Buxton. Wedi ei chythruddo gan y lluniau a welodd o blant yn newynu yn Yr Almaen ac Awstria yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf fe aeth Eglantyne Jebb ati i amddiffyn hawliau pob plentyn - pwy bynnag y bônt, ble bynnag y bônt - gan ysgrifennu'r Datganiad ar Hawliau'r Plentyn yn 1924 a arweiniodd at greu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 1989.

Dechreuodd Achub y Plant weithio yng Nghymru yn yr 1930au yn helpu teuluoedd yng nghymoedd y de yn ystod y Dirwasgiad gan agor meithrinfeydd awyr agored yng nghymunedau Brynmawr a Dowlais ym Merthyr. Yr elusen hefyd oedd y cyntaf i gynnig llefrith am ddim mewn ysgolion cyn i hynny ddod yn bolisi gan Lywodraeth Prydain yn yr 1940au. Erbyn hyn mae Achub y Plant yn gweithio mewn 120 o wledydd yn fyd-eang gan gynnwys yma yng Nghymru yn helpu teuluoedd a phlant i ffynnu yn eu blynnyddoedd cynnar allweddol.

Mae Gwyn Hughes Jones a'i wraig Stacey Wheeler wedi bod yn Llysgenhaddon i'r elusen ers 2012 ac wedi perfformio mewn sawl cyngerdd i godi ymwybyddiaeth ac arian at yr achos. Bu Stacey yn gweithio i'r elusen am gyfnod yn arwain rhaglen i adeiladu perthynas gref rhwng rhieni, ysgolion a chymunedau er lles y plentyn. Mae bod yn Llysgenhaddon hefyd yn rhoi cyfle prin i'r ddau berfformio gyda'i gilydd a hynny ynghanol prysurdeb eu gwaith bob dydd yn perfformio a theithio ledled y byd gyda Chwmniau Opera.


Meddai Gwyn Hughes Jones: "Mi rydan ni yn edrych ymlaen yn ofnadwy at y cyngerdd ac at berfformio hefo'n gilydd gan nad yw'r cyfle yn dod yn aml. Mae o'n rhan o gydwybod cymdeithasol rhywun i fod eisiau i gymaint o blant a phobl ifanc gael pob cyfle i dyfu i fyny yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Ac mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli ein cyfrifoldeb i fod yn rhan o'r ateb i wneud y byd yma yn lle gwell iddyn nhw fyw ynddo."

Bydd elw o'r cyngerdd a gwerthiant y CD 'Mae 'Na Obaith' yn mynd tuag at ariannu prosiectau Achub y Plant dramor ac yng Nghymru.

Pris tocynnau yw £20 a £5 i blant ac maent ar gael i'w prynu o siopau Palas Print yng Nghaernarfon ac Awen Menai ym Mhorthaethwy neu drwy ffonio Eurgain Haf yn Swyddfa Achub y Plant ar 02920 803253/ 07900214959



"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



TEITHIAU CERDDED

MERCHER 3 EBRILL 10.30yb
Y GOGARTH – HANES HYNAFOL – (tua 3.5 milltir)
gyda Martin Davies ‘Ardal’
CYCHWYN: MAES PARCIO, FFORDD STTUDNO,
Y GOGARTH LL30 2XF.
CYFEIRNOD GRID: SH768837
CYMEDROL, GYDA YCHYDIG O LLWYBRAU
BRYNIOG. SGIDIAU CERDDED (efallai yn wyntog ar
y Gogarth a cofiwch bod peryg o jôcs gwael!!!)

GWENER 12 EBRILL 1.30yp
CYFRES HANES CHWAREL DINORWIG (TAITH
1 o 6)*
ALLT DDU: CYN Y CHWAREL A’R CHWARELI
CYNNAR (1½ milltir)
CYCHWYN: ALLT DDU, DINORWIG
CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.
*Dyma cychwyn cyfres o deithiau dros y misoedd nesaf
sydd yn olrhain hanes Chwarel Dinorwig o’r cychwyn
tan ei ddiwedd – a hithau’n 50 mlynedd ers cau’r
chwarel. Dros y misoedd byddwn hefyd yn crwydro
trwy’r chwarel ei hun, darganfod hanes Gilfach Ddu,
crwydro’r rheilffordd o Penscoins, cerdded a darganfod
Marchlyn ac adrodd hanes y cau yn 1969. Cewch y
manylion i gyd yma yn yr ‘Eco’.


DIGWYDDIADAU ARBENNIG

LLUN 15 EBRILL A MAWRTH 16 EBRILL
AMGUEDDFA ‘POP-YP’ (AR Y CŶD A ‘STORIEL’)
HANES DEINIOLEN: TEITHIAU CERDDED A
HELFA TRYSOR HEN LUNIAU Y PENTREF

LLUN 15 EBRILL 1.30yp
TAITH GERDDED A HELFA GELF HEN LUNIAU
O DEINIOLEN (1½ milltir)
CYCHWYN:CAFFI EBs, DEINIOLEN
HAWDD. DEWCH A CAMERA (NEU Y CAMERA
AR EICH FFON) I YMUNO A’R HWYL.

MAWRTH 16 EBRILL 1.30yp
TAITH GERDDED: HANESION AC ADEILADAU
COLL DEINIOLEN (1 milltir)
CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN
EITHA HAWDD.

LLUN-MAWRTH 15-16 EBRILL
ARDDANGOSFA O HEN LLUNIAU O DEINIOLEN
YN CAFFI EB’s DEINIOLEN. AR AGOR 10.00yb-
2.30yp.
RHAGOR O FANYLION TRWY CYSYLLTU A
GARETH ROBERTS YN MENTER FACHWEN AR
07867 810576.



CYSTADLEUAETH

CYFLE I ENNILL GWOBRWYON GWERTH £50

I ddathlu cyhoeddi ein map (ac ‘ap’) newydd, ‘HANES YR IDDEWON YM MANGOR’ (ar y cyd a’r Brifysgol ym Mangor), rydym wedi trefnu cystadleuaeth Limrig. Mae hyn oherwydd dros 100 mlynedd yn ol, roedd Iddew ddysgodd Gymraeg o’r enw Joseph Bolloten o Fangor yn trefnu cystadleuthau Limrigau yn y wasg Gymraeg (gyda gwobrwyon hael iawn ganddo). Rydym wedi darganfod nifer o’r limrigau gwreiddiol (yn cynnwys yr un isod) ac nawr, dros 100 mlynedd yn ddiweddarach, rydym wedi trefnu cystadleuaeth i chi orffen y Limerig gyda gwobr gwerth dros £50 i’r enillydd:

Eich tasg yw gorffen y Limerig isod.

‘Fu’rioed y fath helynt yng Nghymru,

Mae pawb yn y wlad wedi d’rysau;

O Fynwy i Fon,

Lledaenodd y sôn,

Danfonwch eich cynigion drwy e-bost i ‘garethroberts754@yahoo.co.uk’ neu postiwch eich cynnig i Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen, Tŷ Llundain, Cwm y Glo, Caernarfon Gwynedd, LL55 4EU erbyn dydd Gwener, 3ydd o Fai 2019.

Bydd y Limerig orau yn ennill Tocyn Llyfrau o ‘Na-Nog’, copi o’r llyfr ‘The Jews of Wales: A History’ gan Cai Parry-Jones a hamper o gynnyrch Menter Fachwen. Bob lwc!



Fandaliaid Waunfawr: ymddygiad gwarthus ar safle'r ysgol



Ganol fis Mawrth bu fandaliaid yn malu offer yn yr iard fach unwaith eto. Ond yn waeth na hynny roedd y troseddwyd wedi gadael eu baw yno hefyd. Bu dau gymhorthydd yn golchi'r holl offer chwarae, yr iard ei hun ac esgidiau'r plant am bron i

deirawr. Os oes gan unrhyw un wybodaeth am pwy fu'n gyfrifol am y fath ymddygiad cywilyddus, cysylltwch â'r heddlu – sy'n ymchwilio i'r digwyddiad.

Sefydliad y Merched Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod ar Chwefror 7fed gan Catherine, ein Llywydd, yn arbennig felly i Joy oedd wedi bod yn yr ysbyty cyn y Nadolig. Roedd wedi gwella ychydig erbyn hyn.

Mr John Grisdale o Gaernarfon oedd y gŵr gwadd am y prynhawn a chroesawyd ef gan Catherine. Mae o wedi bod yn aelod ffyddlon iawn o dim achub mynydd ers blynnyddoedd ac yr oedd pawb yn edrych ymlaen am ei sgwrs am y gwaith peryglus a phwysig yr oedd yn ei wneud. Dangosodd i ni luniau manwl iawn o rai o'r profiadau y bu yn rhan ohonynt. Diolchodd Rosie iddo am rannu o'i brofiadau gyda'r aelodau. Ar Fawrth 7fed bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi trwy wleda yn Bron Menai, Caernarfon.

Merched y Wawr Ar nos Iau, Chwefror 28, bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghaffi'r Antur yn y Waun. Oherwydd bod ein Llywydd, Anita, yn methu bod yn bresennol, Bethan, ein Is-lywydd, a groesawodd pawb i'r cyfarfod. Roedd yn falch o groesawu Iona Williams yn aelod newydd i'r gangen ac hefyd yn falch o weld Cris, sy'n ddysg-wraig yn ein plith, yn gwella wedi iddi gael triniaeth i'w llygaid yn yr ysbyty. Roedd aelodau'r pwyllgor wedi bod yn hynod brysur yn paratoi gwledd - cawl cennin, bara brith a chacennau cri blasus. Gwnaed casgliad ariannol ar y noson gyda'r arian yn cael ei gyflwyno i Ward Gofal Arbennig y Babanod yn Ysbyty Gwynedd. Diolchwyd i bawb gan Gill Wyn. Bydd y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch nos Iau, Mawrth 28 pryd y cawn sgwrs am Amgueddfa Lechi Llanberis gan Cadi Iolen. Anita a Chris fydd yn gofalu am y raffl a'r baned a Pegi yn rhoi'r diolchiadau.

Yr Urdd Llongyfarchiadau i Miri Siôn, Tŷ Pen, ar ddod yn gyntaf am lefaru blwyddyn 5 a 6 yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Dymuniadau gorau iddi yn yr Eisteddfod Sir.

Llongyfarchiadau hefyd i Barti Llio Elis ar ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Côr Blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Cylch Arfon. Da iawn pob un ohonoch fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.

Priodas Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llion Dafydd ar ei briodas â Jessica Ludewig. Llongyfarchiadau iddynt hefyd ar enedigaeu eu mab bach, Dylan James, yn yr ysbyty yn Cologne, Yr Almaen. Mae nain a theulu Glanfa yn edrych ymlaen yn eiddgar iddynt ddod ar ymweliad â'r Waun.

Pen-blwydd Priodas Arbennig Yn ystod mis Chwefror bu Cyril a Grace, Stad Bro Waun, ar wyliau dramor yn dathlu cyrraedd eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau ichi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Newid Swydd Roedd yna golli dagrau yn yr ysgol ddydd Gwener, Chwefror 16. Wedi iddi fod yn aelod o staff am tua pymtheng mlynedd, yn Weinyddes yn y Cyfnod Sylfaen ac yn

ysgrifenyddes yr ysgol yn ddiweddar roedd Nia Llwyd, 'Anti Nia' i'r rhai bach, yn gadael ei swydd. Diolchwn iddi am ei gofal diflino a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn yn dda hefyd i Mr Downey sydd wedi mynd ychydig bellter o Ysgol y Waun i Ysgol Gymraeg y Gaiman ym Mhatagonia. Dymunwn yn dda iddo a diolch iddo am ei gymorth i blant ei ddosbarth yn y Waun.

Diolch. Dymuna Nia Griffith, Dolydd, Stad Ty Hen, ddiolch i staff a rhieni Ysgol Waunfawr am yt anrhegion a'r arian a dderbyniodd wei iddi orffen gweithio yn yr ysgol.

Dymuno Gwellhad

Dymunwn wellhad i Branwen, Dôl Meini, wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llaw yn Ysbyty Gwynedd.

Dymunwn wellhad hefyd i Eleri Dale, Stad Tŷ Hen, wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llygad yn yr ysbyty.

Cydymdeimlad Daeth tristwch i ran Mrs Emsul Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli nith, Angela, merch i'w diweddar chwaer Alis. Cyfnither i Alun Rhys a Dafydd a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn â chi yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Roy Allen, Denise a Zuzanne yn eu profedigaeth o golli Mavis, gwraig annwyl a mam garedig iddynt. Roedd y nain hoffus i Jmeel, Yasmin ac Oliver a chwaer driw i Joan ac i'w diweddar frodyr, Brian a Cliff a'u teuluoedd.

Yn dawel yn ei gartref yng Nghaernarfon bu farw Robert ap Wyn Williams a fu'n flaenor yng Nghapel y Waun am 34 o flynyddoedd. Yng ngwasanaeth y capel bore Sul, Chwefror 24, anfonodd Pat gydymdeimlad swyddogion ac aelodau'r capel i'w wraig, Angharad, a'i fab Gareth a'r teulu yn eu profedigaeth drist. Hefyd diolchodd Pat i Dylan Rhys am ei garedigrwydd yn galw i edrych am ei gyd-flaenor ar ddau yn mwynhau sgwrs fach. Gwerthfawrogi Robat ap hyn yn fawr.

Gwasanaeth Capel y Waun am 10 y bore

Ebrill 7: Mrs Susan Williams

14: Mr John Robinson

21: Parch Cledwyn Williams, Bangor

28: Mr Dafydd Charles Thomas

Mai 5: Mr Aled Job

12: Mr Arwel Roberts, Rhuddlan

19: Parch Emyr Rowlands, Llangristiolus

26: Mr John Roberts

Parhad WAUNFAWR

Gwyllo S4C Nos Lun, Chwefror 18, ar raglen Heno roedd y cyflwynydd a'r camerâu ar fferm Hafod y Rhug Uchaf. Dyma eu hail ymweliad â'r Hafod i weld a thrafod y defaid trwyn du - Valais, a chael sgwrs am eu datblygiad gyda'u perchnogion Gerallt a Kerry. Roedd eu dau fab, Alffi a Luca, yn arddangos y defaid Valais gyda diddordeb mawr.

Nos Wener, Mawrth y cyntaf cynhaliwyd cystadleuaeth Cân i Gymru. Roedd yn dda gweld Meilyr Gwynedd a'r band gyda'u hofferynnau cerdd yn cefnogi'r cystadleuwyr.

Un ohonynt oedd Elidyr Glyn sydd wedi ei fagu ym mhentref y Waun. Ei gân oedd 'Fel Hyn Da Ni Fod' a dyma'r un fuddugol ddaeth â'r wobr i Elidyr. Llongyfarchiadau i ti a dymuniadau gorau yn y cam nesaf yn yr Wyl Ban Geltaidd yn Iwerddon ym mis Ebrill.

Brynhawn Mawrth yr Ynyd ar raglen Prynhawn Da roedd y cyflwynwyr yn cael sgwrs gyda gwraig wadd adnabyddus i wylwyr Pobol y Cwm. Roedd yn un o'r cymeriadau cyntaf yn y ddrama sebon hon ac yn un sy'n dal i fod yno, ac yn hapus iawn. Mae'n byw yn ardal Llandaf yng Nghaerdydd ond un o'r Waunfawr yn enedigol. Ie - Lisabeth Miles. Roedd wedi dod â thri trysor i'w trafod ar y rhaglen, Cadwyn arian ac esgid yn hongian arni oedd un a soniodd am y trysor. Roedd ei modryb Jin yn cadw siop Arfon House yma ac ar ôl i'r lori ddanfôn nwyddau i'r siop byddai Lisabeth yn ei helpu i'w cadw a llenwi'r silffoedd uchaf, gan ei bod yn dalach na'i modryb. A dyma gan bwy y cafodd y trysor. Trysor arall oedd 'Dilliau Dyfi' llyfr penillion bach digri roedd wedi mwynhau eu darllen pan yn blentyn ac wedyn i'w merched ac rŵan i'w wylwyr a'i wyres. Ei thrydydd trysor oedd sgarff goch a du gynnes a dderbyniodd gan ei mam ac sy'n cael gofal mawr gan Lis. Gofynnwyd iddi a oedd ganddi deulu o hyd yn y gogledd. 'Oes, mae fy chwaer Gill ac Eurig, ac Euros a Catrin a'r genod yno, a phob tro yr af i'r gogledd i'w gweld, "mynd adra rydw i", meddai.



Tîm Pêl-droed

Dymuna aelodau a hyfforddwyr tîm pêl-droed dan 10 oed Waunfawr ddiolch i Mark Sykes am ei garedigrwydd yn rhoi cit pêl-droed newydd iddynt gyda logo Garej Pant Waun a Siop y Pentref arno. Gobeithio y byddwch yn chwarae yn dda, sgorio goliau a rhoi pentref Waunfawr ar fap chwaraeon yr ardal! Pob hwyl i chi.

Cofio Dafydd Andrew Daeth y newyddion o golli Dafydd Andrew i salwch cas â chwmwl o dristwch dros yr Antur ac i drigolion y pentref. Roedd Dafydd yn un o'r rhai cyntaf i'w dderbyn i'r Antur, 30 mlynedd yn ôl. Roedd yn gymeriad annwyl a hoffus yn cyfarch pawb yn ei ffordd unigryw ei hun, 'Wyt ti'n flin heddiw?' oedd ei gwestiwn ac 'Yli bol chips.'

Diolch i weithwyr cefnogol yr Antur am eu gofal ohono, y profiadau a gafodd yn eu cwmni a'r annibyniaeth a fagodd yn eu plith. Cofiw'n ef bob amser yn llawn miri a hwyl, yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth a chanu. Bydd andros o le gwag yn yr Antur a'i gartref ar ei ôl. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i gydweithwyr, ei ofalawyr a'i deulu yn eu colled a'u hiraeth.

Dymuna Meinir, mam Dafydd, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth o'i golli. Diolch am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd i'w rhannu i'r Antur a'r Feddygfa.



GWASANAETH DYLUNIO GERDDI

Yn adnabyddus fel un o gyflwynwyr Garddio a Mwy (S4C), mae Meinir bellach wedi hyfforddi fel dylunydd gardd - cysylltwch os ydych chi'n awyddus i roi bywyd newydd i'ch gardd.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynnal a chadw'ch gardd am bris rhesymol gan gynnwys:

**TORRI GWAIR A GWRYCHOEDD
CYNNAL A CHADW LLWYBRAU A WALIAU
AILWAMPIO BORDERI**

Gyda chriw sydd â phrofiad helaeth o weithio'n broffesiynol mewn gerddi ac yn y byd adeiladu, gallwch fod yn sicr y byddwch yn cael y gwasanaeth gorau.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth!
07854 374588 post@meinirgwilym.com



Cynnig
GOFAL PLANT CYMRU
The **CHILDCARE** Offer for WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care

30 awr y wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i reni cyn y 5 sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

30 hours a week of Government funded early education and childcare for eligible working parents of three and four year olds for up to 48 weeks of the year.

Ar gael yn • Available in
Gwynedd a Môn
01248 352436
gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru



Ffordd Caeathro i'r Bontnewydd



Derbyniwyd gwybodaeth gynhwysfawr gan Dilwyn Roberts (Caeathro gynt) yn taflu mwy o oleuni ar leoliad a llwybr yr hen ffordd o Gaeathro i'r Bontnewydd. Roedd J.M.Roberts (yn wreiddiol o'r ardal) yn nodi fod y ffordd yn dilyn afon Beuno i'r pant rhwng Castellmai a Rhosbach.

Darganfu Dilwyn Roberts fod cyfeiriad at y rhan hon o'r ffordd yn cael ei wneud gan Peter Bailey Williams mewn llythyr at W. Glyn Griffith Ysw., Bodegroes, dyddiedig yr 8ed o Dachwedd, 1823. Dyma beth o gynnwys y llythyr:

Dear Sir,

The late Lord Newborough had it in contemplation to improve the road leading from Bont Newydd by Glangwnna Gate and he intended making a new cut between the road leading to Glan yr Afon and the ford on the small stream running down towards Tyddyn Helen by a farm house belonging to his lordship the name of which I do not recollect.

Afon Beuno yw'r "small stream" mae'n gyfeirio ati, ac mae'n debyg mai Maes Merddyn yw'r "farm house, the name of which I do not recollect". Sylwer hefyd mai Tyddyn Ellen ac nid Helen yw enw presennol y fferm lle lleolir "Gypsy Wood". Mae'n mynd ymlaen i nodi:

There is a very considerable angle in the present road - for after coming down from Pen Rhos (Mr. Rumsay Williams') you turn on the left towards Castellmai and Glan yr Afon along another road which comes up by Rhyddallt instead of going in a direction by the above farmhouse towards Bont Newydd. There is a road already made part of the way and the distance to be completed is not more than two or three hundred yards if so much. It would be a great accommodation both to the public and to the farmer and no great expense to the Parish.

Mae'r llythyr yn cadarnhau sylwadau J.M. Roberts, ac mai dilyn llwybr yr afon oedd y ffordd, fel y mae'n disgrifio hyd at 1823 o leiaf. Nid yw'r llythyr yn enwi pentref Caeathro, gan mai ar ôl 1862 y daeth y pentref i fodolaeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod cais Peter B. Williams wedi dwyn ffrwyth gan fod y "new cut" yn ogystal â'r hen ffordd i'w gweld yn glir ar fap y degwm, 1841.

Llawer o ddiolch am ychwanegu mwy at hanes yr ardal hon sy'n ymylu ar fro'r "Eco".

Sant Ioan, Llanrug

Derbyniwyd mwy o ymateb i'r lluniau o ddosbarthiadau Sant Ioan yn Llanrug gan Mrs Ceinwen Jones Porthaethwy. Mae'n enwi'r meddyg yn y lluniau fel Dr Wyn Jones, oedd yn byw mewn tŷ go fawr ddim yn bell o garej Davies Llanberis. Mae'n debyg mai ei ferch oedd Mary Wyn a weithiai ym manc y Midland ar y Maes yng Nghaernarfon, ac a briododd Nefydd Jones, perchennog siop dda-da a sigarets ar y chwith wrth adael y Maes am Stryd y Llyn.

Ty Newydd, Waunfawr

Ydych chi'n credu mewn cyd-ddigwyddiad? Yn dilyn dangos lluniau yr hen Dy Newydd yn y rhifyn diwethaf, euthum ati i geisio darganfod ble yn union yn y Waunfawr yr oedd, gan gychwyn efo'r cyfrifiadau. A darganfod tri ohonynt!

Yng Nghyfrifiad 1901 roedd un Ty Newydd yn cael ei restru rhwng Pant Cerrig a Cae Gwyn. Roedd un arall ar ddalen yn cynnwys Gadda Goch, Ty'r Capel, Vestry Room (MC Chapel), Ty Newydd, Hen Shop, Bryn Meurig a'r Eagles. Ac yr oedd trydydd rhwng 'Refail ac Ala Bow. (Rwy'n defnyddio'r sillafu yn y cyfrifiad). Roedd yna hefyd Tai Newyddion yn cael eu henwi ar yr un cyfrifiad. Yna, o chwilio safle CADW, darganfod fod Ty Newydd yn y Waunfawr wedi ei gofrestru fel adeilad rhestredig Gradd II ar 27ain o Fehefin 1999, ac yn cael ei ddisgrifio fel "recently abandoned and unoccupied at the time of Survey." Caiff ei ddisgrifio fel ty dwy ystafell gyda tho llechi, ac nad oedd posib cael mynediad iddo ar y pryd.

Ond pa un o'r tri sy'n cael ei ddangos yn y llun? Erbyn hyn gwn mai'r safle gwreiddiol oedd gyferbyn a Chapel y Waun. Felly, y trydydd Ty Newydd yn y rhestr uchod ydoedd – rhwng 'Refail ac Ala Bow(1). Cafodd ei ddymchwel rywbyrd yn ystod y ganrif ddiwethaf, ac adeiladwyd ty newydd (arall a mwy modern!) yno.

A'r cyd-ddigwyddiad? Wel, ar drywydd hollol amherthnasol roeddwn yn chwilio am gymeriad o'r Waunfawr o'r enw William Gadlys Williams. Ac yn 1901 roedd yntau'n byw yn Ty Newydd, ond yr un rhwng y Vestry Room a'r Hen Shop.

Cais am wybodaeth

Yn dilyn o'r cyd-ddigwyddiad uchod, buaswn yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth am William Gadlys Williams. Bu'n amlwg gyda mudiad llafur y chwarelwyr, ac yn aelod o Gyngor Plwyf y Waunfawr. Roedd yn enedigol o blwyf Llanbeblig (ardal y Waunfawr mae'n debyg). Priododd yn 1886 efo Anne Jones, hefyd o'r un plwyf. Mae'n debyg iddo ymgartrefu yn Ty Newydd,

ond roedd yn byw yn Cae Caled, Waunfawr erbyn 1911. Yno hefyd roedd ei blant, Jennie, Maggie, Robert Arthur, Willie Llewelyn, Richard Bleddyn, Mary Eurgain a'r efeilliaid Annie Mwynwen a Gwyneth. Roedd ei frawd, Robert Gadlys hefyd yn lletya efo'r teulu. Tybed oes rhai o ddisgynyddion y plant yn dal yn yr ardal? Cysylltwch os gwelwch yn dda.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol - 07798 718188

**CRWYDRO ER BUDD**
Taith wfreiddiol
Taith 2019
Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019


Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taflen a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn - 01286 881911 (dydd)
Symudol - 07795 485081 (nos)
E-bost - crwydro@crwydro.com
Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r fetin...
www.crwydro.com


Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

**GERAINT OWEN CARPEDI**
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI TEILS VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
Sion Roberts ▶ 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



Achub Eglwys Sant Padarn



Ganrif yn ôl ac yr oedd chwarelwyr y pentref yn rhoi o'u hamser hamdden prin i adeiladu estyniad i'r eglwys. Eleni ac y mae gwirfoddolwyr yn prysur gynnal a chadw'r adeilad – heb

CYFEILLION EGLWYS SANT PADARN



Efallai eich bod eisoes wedi clywed am sefyllfa bresennol Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Dyma amlinelliad cryno o'r ffeithiau:

- Mae'r eglwys wedi derbyn adroddiad sy'n awgrymu fod nam pensaernïol andwyol ar yr adeilad.
- Er bod yr adroddiad wedi ei gwblhau yn 2016 ni ddaeth i sylw'r aelodau dan ddiwedd 2018.
- Yn dilyn proses ymgynghorol gyda'r Eglwys yng Nghymru i geisio penderfynu'r camau priodol nesaf i'w cymryd, mae'r aelodau wedi pleidleisio'n unfrydol i geisio achub yr adeilad

Eisoes mae grwpiau Cynnal a Chadw a Chodi Arian wedi eu sefydlu a mawr yw'r diolch i'r gwirfoddolwyr brwdfrydig. Mae'n debyg y gall llawer o'r gwaith ei wneud gan wirfoddolwyr o'r pentref a fyddai'n lleihau'r costau ariannol.

Y cam nesaf yw casglu tua £20,000 er mwyn cynnal prawf a fydd yn dangos a oes modd cywiro'r nam pensaernïol. Os nad oes modd cywiro'r nam rhennir unrhyw arian na ddefnyddir i gyrrff a chymdeithasau lleol.

Yn wir mae'r adeilad yn adnodd gwerthfawr yn y gymuned ac yn nodwedd bensaernïol a hanesyddol o bwys. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau cymunedol yno yn cynnwys cyngherddau, digwyddiadau i'r plant, ciniawa. Hefyd, fel yr unig addoldy sylweddol ei faint sydd dal ar agor yn y dyffryn bellach, mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i gynnal priodasau, angladdau a digwyddiadau enwadau eraill hefyd.

Mae'r Eglwys yn atyniad i ymwelwyr, ac yn agored pob dydd drwy gydol y flwyddyn. Mae nifer o bobl yn ymweld â'r eglwys pob blwyddyn a bob cwr o'r byd.

Y weledigaeth yw sicrhau dyfodol yr adeilad. Estynir gwahoddiad i'r gymuned ehangach i helpu godi'r arian angenrheidiol.

Os hoffech gyfrannu i'r gronfa gallwch wneud hynny drwy anfon silec i Cyfeillion Eglwys Sant Padarn Llanberis neu drwy BACS.

Rhif cyfrif 15029174
Sort code 52 10 39

Gwylwch allan am ddigwyddiadau cymedithasol yn fuan.



anghofio'r lluniaeth parod sy'n eu cynnal hwythau! (Gyda diolch i Dilys Roberts am y lluniau)

Gwasanaethau Capel Coch

Ebrill 7fed am 10yb: Parch Glenys Jones
14eg am 10yb a 5yh: Y Gweinidog
21ain am 10yb: Parch Robat M. Morris
28ain am 10.30yb Oedfa Deulu
Mai 5ed am 10yb Parch Gwynfor Williams
12fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog
19eg am 10yb Mr Andrew Settatree
26ain am 10.30yb Oedfa Deulu

Cymdeithas Undebol Capel Coch Bydd Cinio Blynnyddol y Gymdeithas yn cael ei gynnal yng Nghlwb Golff Caernarfon ar Nos Lun, Ebrill yr 8fed.***Mae'r dyddiad yma yn wahanol i'r hwn sydd ar eich rhaglen!!

Dyle bawb sy'n dod i'r Noson, neu sydd angen mwy o wybodaeth, gysylltu â Gareth, ar 07541887359, gyda'u dewis o'r fwydlen ac arian am y pryd. Y Wraig Wadd ar y Noson fydd Mrs Nia Lloyd Jones.

Gwasanaeth Capel Jerusalem

Ebrill 7ed am 2yp Parch Cath Williams
14eg am 2yp Parch Ddr Elwyn Richards
21ain Dim Cyfarfod
28ain am 2yp Parch John Gwilym Jones
Mai Sed am 2yp Parch Harri Parri

Ysgol Dolbadarn



Hanes Boddi Capel Celyn

Daeth Mr Walter Williams a'i wyres Buddug Roberts i'r ysgol yn ddiweddar i adrodd hanes atgofion boddi pentref Capel Celyn yn y 60au fel rhan o waith thema y disgyblion. Yr oedd y plant yn gwrando yn astud ac yn mwynhau cael cyfle i holi cwestiynau a chael cyfle i afael mewn cwpan arbennig o'r pentref. Diolch o galon i'r ddau am ddod i'r ysgol ac am eu hamynedd wrth ateb y cwestiynau.

Bu Dafydd Iwan yn yr ysgol hefyd yn ddiweddar yn adrodd ei atgofion yntau o'r cyfnod a chafwyd cyfle i ganu ambell i gân – 'Yma O Hyd' oedd y ffefryn wrth gwrs. Yr oedd y plant wedi mwynhau yn fawr ac yr oedd hyn yn brofiad arbennig i'r disgyblion a fydd yn sicr o aros yn y cof.



Eisteddfod Yr Urdd

Bu'r disgyblion yn hynod o brysur yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer y cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch.

Daeth y côr. parti deulais a'r gân actol yn fuddugol yn ogystal â Bella Evans ar yr unawd chwybrennau- pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir.

Daeth y Band yn 2il, ensemble pres a'r parti llefaru yn 3ydd. Da iawn i Elin Mair hefyd am ddod yn 2il ar y ffliwt.

Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn unigol ar y llefaru am y tro cyntaf eleni.

Diwrnod Y Llyfr

Bu i ddisgyblion yr Ysgol wisgo coch i ddathlu Mawrth y 1af neu wisgo fel cymeriad o lyfr Cymraeg yn ddiweddar ar gyfer Diwrnod Y Llyfr. Braff oedd cael gweld pawb yn mwynhau a chymaint wedi ymdrechu i ddathlu'r diwrnod.

Ymgyrch Darllen Dros Gymru

Bu i ddau dim o'r ysgol gystadlu yn yr ymgyrch Darllen Dros Gymru sydd wedi ei drefnu gan y Gwasanaeth Llyfrgell eleni sef Blwyddyn 3 a 4. Y testunau oedd 'Na Nel Wps' a 'Llanast' gan Eleri Lovegreen. Mae'r disgyblion wedi mwynhau trafod y llyfrau a chael cyflwyno'r cymeriadau i blant eraill yn yr ysgol er mwyn hybu mwy o blant i ddarllen llyfrau Cymraeg. Yr ydym yn edrych ymlaen yn awyddus i glywed y canlyniad!



RHAID I CHI, - IA CHI - SIARAD!

Cymraeg ar y we?

Dyma 'ch cyfle i roi'r Gymraeg ar y we ac yn y ganrif yma. Fe all eich ymdrechion chi ddod a'n iaith yn iaith gyfrifiadurol, ond rhaid i chi wneud yr ymdrech. Tydi hi fawr o ymdrech, rhyw 2 funud pob hyn a hyn – ond rhaid gwneud yr ymdrech er mwyn cadw'r iaith yn iaith fyw a chyfoes.

Mae Mozilla yn rhoi gwe borwr Firefox i ni am ddim yn y Gymraeg gyda gwirydd sillafu hefyd. Ond mae gan Mozilla brosiect hanfodol a chyffrous newydd. Common Voice ydi'r enw a bwriad y prosiect ydi cael adnabod llais i ddyfeisiadau ym mhob iaith.

Faint ohonoch sy'n siarad a'ch dyfeisiadau yn y Saesneg? Cymaint gwell fyddai gofyn "Iawn Gwgl", "Helo Alecsa", "Sut ma hi Sisi" a gofyn "Pwy oedd y co bach?" a chael yr ateb yn y Gymraeg.

I gael hyn yn weithredol rhaid cael swp anferth o leisiau fel y gall y meddalwedd ddadansoddi, deall ac ateb yn yr iaith. Da ni'n sôn am degau o filoedd o samplau lleisiau o bob math. O gael y swp fe all ateb mewn Cymraeg dim Saesneg ond Cymraeg. Wn i ddim pa acen, ond Cymraeg.

O lle mae'r rhain am ddod? Wel mae'r BBC a swp anferth o recordiadau, ond dim digon beth bynnag, a wn i ddim os di nhw wedi eu cyfrannu.

Dyma lle gallwn ni ddod i'r adwy

Mae Mozilla wedi creu gwefan arbennig fel y gallwn ni gyfrannu'n lleisiau gan ddarllen pump brawddeg yn uchel su'n cael eu

harddangos yn glir ar y sgrin y cyfrifiadur. Dim ond darllen pump brawddeg! Dau funud o siarad. Fe gewch gynnig pump ar ôl pump os da chi'n dewis. Fe gewch wneud yr un peth ar eich fonau.

Hefyd fe gallwch wrando ar y cyfraniadau gan eraill a phenderfynu os ydi'r darlenniadau'n cyd-fynd ar brawddegau ar y sgrin.

Gwefan Mozilla ydi <https://www.mozilla.org/cy/> - ac ydi, mae hi'n y Gymraeg.

Cliciwch ar PROSIECTAU a dilynwch y cyfarwyddiadau – mae nhw'n syml.

Dyma ddisgrifiad Mozilla o'u cynllun.

Common Voice yw cynllun Mozilla i helpu dysgu peiriannau sut mae pobl go-iawn yn siarad.

Mae llais yn naturiol ac yn ddynol. Dyna pam rydym yn awyddus i greu technoleg llais defnyddiol ar gyfer ein peiriannau. Ond i greu systemau llais, mae datblygwyr angen swm sylweddol iawn o ddata llais.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddata sy'n cael ei ddefnyddio gan y cwmnïau mawr ar gael i'r rhan fwyaf o bobl. Rydym ni'n credu fod hynny'n cyfyngu ar arloesedd. Felly rydym wedi lawnsio Common Voice, project i roi adnabod llais yn agored ac ar gael i bawb.

Dyma faint sydd wedi ei gasglu ar gyfer y Gymraeg hyd yma.

Er fod 657 o'n cyd Gymry wedi cyfrannu dim ond 37 awr o samplau gafwyd.

SIOP MAMETZ LLANBERIS

Gyda diolch i Eifion Roberts am hanes y siop gyda'r enw'n gysylltiedig ac un o frwydrau mwyaf gwaedlyd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Pan oeddwn i'n blentyn, yn Newton Street Llanberis, byddwn wrth fy modd yn mynychu siop fechan a safai rhyw hanner can llath o'n tŷ ni, i brynu da-da. Enw cywir y Siop oedd Newton Stores ond, i ni'r plant ac i bawb yn Llanberis, Siop Mametz ydoedd!

Er imi feddwl lawer tro, a chael fy holi'n aml gan eraill, wnes i erioed ddarganfod cysylltiad y Siop a thrychineb Mametz Wood- yn ystod y Rhyfel Mawr. Erbyn Gorffennaf 1916 'roedd y ffin rhwng Byddinoedd Prydain/Ffrainc a Byddin yr Almaen, ym mrwydr y Somme, yn rhedeg drwy bentref bychan Mametz. Ar gyrion y pentref 'roedd coedwig tua milltir sgwâr, Mametz Wood, oedd ym meddiant yr Almaenwyr, ac wedi ei chryfhau yn sylweddol ganddynt. Penderfynodd Arweinwyr y Prydeinwyr y dylid clirio'r Almaenwyr o Mametz Wood ac, yn drychinebus, fe ddewiswyd y RWF i gyflawni'r gwaith. Dechreuodd y frwydr ar y 7fed o Orffennaf, 1916 ac, er mai ond 6 diwrnod a gymerwyd i sicrhau'r Goedwig gan y Cymry, roedd y gost yn ofnadwy o uchel, gyda dros 1000 o Gymry wedi eu lladd a dros 3000 wedi eu hanafu.

I ddarganfod cysylltiad y drychineb â Siop Mametz, rhaid oedd imi fynd yn ôl i Gyfrifiad Caernarfon yn 1911. Yn 27, Marcus Street 'roedd Robert Hughes (33 oed) yn byw, gyda'i wraig Elizabeth (33) a'u plant, Sessie (11), Margaret (8), Jennie (6) a Gwilym (4). Yn ôl Cyfrifiad 1911, "Commercial Traveller-Hardware" oedd swydd Robert Hughes.

Fe ymunodd Robert Hughes a'r fyddin, fel y gwnaeth degau o filoedd eraill, ym mis Rhagfyr 1914, i ymladd yr Almaenwyr. Fel y mwyafrif o'r Cymru, fe ymunodd a'r RWF, gyda Rhif 18374. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â'i wasanaeth

yn y Fyddin, ond fe dderbyniodd fedalau Victory, British a'r 15 Star. Ar ei Record Pensiwn mae nodyn, iddo gael rhyddhad, o'r Fyddin 4/2/1917. Mae llythyr Gŵyl Dewi oddi wrth Robert Hughes yn Y Dinesydd Cymreig, 8/3/1916, ble mae'n sôn am ei brofiad Rhyfel a'i gyd-ryfelwyr Cymreig. Cofnodir yn Y Dinesydd Cymreig 21/2/1917 fod Robert Hughes wedi ei ryddhau o'r Fyddin, ac adref yn Marcus Street.

Symudodd teulu Robert Hughes o Gaernarfon i Lanrug erbyn Mis Tachwedd 1919 oherwydd eto, yn Y Dinesydd Cymreig 12/11/1919, o dan Lanrug, mae darn yn sôn am "Dr Mills Roberts yn ymweld a'i gyfaill Robert Hughes, Maelfa Mametz, a glwyfwyd yn Mametz Wood yn ystod Gorffennaf 1916, ac a fu mewn deg o wahanol ysbytai yn y wlad hon a Ffrainc. Tybiaf fod gan y teulu Siop yn Hermon Terrace, Lanrug. Ddechrau Medi, 1919 cynhaliwyd Cyngerdd er budd Robert Hughes, milwr clwyfedig, yn Ysgol Glanmoelyn gydag unawdwyr o Gaernarfon, y Lanrug Glee Party a'r Seindorf Arian yn cymryd rhan.

Y cyfeiriad olaf sydd gennyf ynglŷn â Robert Hughes yw, yn "Y Brethyn" 9/10/1919:- "Dyma enghraifft o ffyddlondeb a phlwc :- Dau filwr (cydymhladdwyr ag o yn y Rhyfel) yn hwylio Robert Hughes, cyn -filwr clwyfedig, yr holl ffordd o'i gartref, Mametz Cottage, Lanrug, i Fangor, at y Medical Pension Board, ac yna ei hwylio'n ôl yn y gadair olwyn- y daith yno ac yn ôl yn llawn dwy filltir ar hugain!"

Mae nodyn ar "Medal Record" Robert Hughes yn dweud iddo farw 27-10-1924!

Rhai blynnyddoedd yn ôl 'roedd un o breswylwyr hŷn Newton Street y cofio dyn mewn cadair olwyn yn byw yn Siop Mametz. Cyn gorffen, rhaid imi gyfeirio at wasanaeth Gwilym Mametz, mab Robert Hughes, i Glwb Peldroed Llanberis, ac at ei chwaer Mary, Mametz, am ei gwasanaeth gweinyddu, yng ngheginau llawer o westai Llanberis, am flynyddoedd.

TUDALEN YR IFANC

TRIOLEGAU GWREIDDIOL A FFRES I OEDOLION

Gyda chonsensws bod diffyg darpariaeth o ran nofelau i oedolion ifanc yn Gymraeg, mae'r Lolfa ar fin cyhoeddi'r olaf yn nhriolegau'r awduron poblogaidd a phrofiadol Bethan Gwanas a Lleucu Roberts.

Mae'r ddwy drioleg yn gam tuag at lenwi y "bwllch anferthol a phoenus," yng ngeiriau Bethan Gwanas. Mae llyfrau cyntaf y triolegau wedi cael ymateb gwych ac yn ateb y galw am ddeunydd gwreiddiol, ffres ac anturus i oedolion ifanc Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2017 cyhoeddwyd Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc gan Dr Siwan Rosser, Prifysgol Caerdydd. Adroddir:

"O wrando ar farn pobl ifanc, daw'n amlwg eu bod yn ysu am nofelau Cymraeg sy'n mynd i'r afael â'u profiadau hwy. Galwant am straeon mwy cymhleth a heriol, nid ar themâu 'tywyll' o reidrwydd ond yn llawn egni, hiwmor a dychymyg ac mewn iaith hygyrch." (t.19)

Dyma felly gyflwyno Edenia o Gyfres y Melanai (addas i blant 12+ oed) gan Bethan Gwanas ac Afallon o Gyfres Yma (addas i 14+ oed) gan Lleucu Roberts.

"Mae Bethan Gwanas a Lleucu Roberts wedi ysgrifennu dwy drioleg gyfoes, llawn antur sy'n haeddu cael eu clodfori a'u canmol," meddai Meinir Wyn Edwards, golygydd yn Y Lolfa.

Meddai Bethan Gwanas: "Mae hi wedi bod yn farathon, ond baint oedd cael bod yn ran o brosiect mor gyffrous. Dwi'n falch iawn o'r tair nofel, a gobeithio y bydd y darllenwyr yn mwynhau straeon y cymeriadau gymaint ag y gwnes i fwynhau eu creu. Dwi wir yn mynd i weld eu colli nhw."

Ychwanegodd Lleucu Roberts: "Baint yw cael cyfle i ysgrifennu straeon gwreiddiol yn y Gymraeg ar gyfer darllenwyr ifanc heddiw, a'r her yw gwneud hynny mewn modd sy'n helpu i ennyn cariad gydol oes at ddarllen nofelau Cymraeg."

Bydd setiau o'r cyfresi'n cael eu creu ac ar werth erbyn diwedd mis Mai 2019.

GWOBROWYO CERDDORIAETH WERIN O GYMRU

Ym mis Ebrill 2019, bydd gan Gymru wobrau gwerin newydd sbon!

Bydd y gwobrau yn dathlu perfformwyr talentog y sin gerddoriaeth gwerin a thraddodiadol Cymru sydd wedi blodeuo yma yng Nghymru yn ogystal â gwneud argraff sylweddol mewn gwyliau ar draws y D.U. a thramor, yn cynnwys 'English Folk Expo', Gwyl Ryng-Geltaidd Lorient Interceltic yn Llydaw, a Proms Gwerin y BBC.

Bydd yr enillwyr yn cael eu dewis o restr hir a enwebwyd gan drefnwyr clybiau a gwyliau, cerddorion ifanc, yr hen do, newyddiadurwyr, darlledwyr, hyrwyddwyr, ymgyswyr a selogion.

Bydd y gwobrau yn cael eu cyflwyno ar y 11eg o Ebrill mewn noswaith o ddathlu yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd, a bydd darllediad o'r noson ar raglen Awr Werin Lisa Gwilym ar BBC Radio Cymru.

Bydd gwobrau ar gyfer

- Y perfformiad byw gorau
- Yr artist unigol gorau
- Y gân Gymraeg draddodiadol orau
- Y gân Gymraeg wreiddiol orau
- Yr artist/ band gorau sy'n dechrau dod i'r amlwg
- Y grŵp gorau
- Yr albwm gorau
- Y gân Saesneg wreiddiol orau
- Y trac offerynnol gorau

Eisiau rhoi tro ar gyfansoddi? Mae 'Gwobr Gwerin' yn agored i bawb, gyda cherddorion sydd ddim yn gweithio yn broffesiynol mewn golwg. Eleni bydd y wobr yn cael ei chyflwyno i'r casgliad gorau o dair tŷ wreiddiol. Mae'r Wobr Gwerin yn agored i gyfansoddwyr o unrhyw oedran wedi'u hanelu yn benodol at bobl sy'n chwarae, er enghraifft mewn sesiwn neu glybiau gwerin neu ar gyfer grwpiau dawn.

I gystadlu, anfonwch eich casgliad o dair alaw ar ffurf nodiant, fideo neu MP3 i trac@trac-cymru.org i gael ei hystyried gan y panel beirniadu.

Mae Gwobrau Gwerin Cymru wedi ei greu gan bartneriaeth sy'n cynnwys trac (Traddodiadau Cerdd Cymru), BBC Radio Wales a Radio Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a ffigurau sylweddol byd cerddoriaeth werin Cymru, ac eleni bydd y Cyngor Prydeinig yn noddi'r noson ddathlu.

Cewch weld mwy o wybodaeth ar y Gwobrau ar wefan trac ar www.trac.cymru



Disgyblion trip Real Madrid ar y daith gerdded nodedig dydd Sul, Mawrth 18 o amgylch Llyn Padarn i gasglu arian ar gyfer cit ymarfer! Disgyblion wedi casglu £1678.25! Ymdrech wych! Diolch i rhai sydd wedi noddi'r disgyblion!



Llongyfarchiadau enfawr i dîm Hoci dan 14 am ddod yn ail yn Ffeinal Hoci Dan 14 Ysgolion Eryri. Genod wedi chwarae'n wych.



Llongyfarchiadau mawr i Melody, Beca, Isabel ac Elain am eu perfformiadau gwych yn ffeinal athletau dan do Cymru. Y genethod wedi dod yn ail drwy Gymru fel rhan o dimau dan 13 ac 15 oed Gogledd Orllewin Cymru.




Wel am benwythnos gwych yn Borreaton Park Amwythig! Genod blwyddyn 8 wedi mwynhau pob eiliad ac wedi chwarae'n wych yn erbyn nifer o ysgolion o Loegr. Diolch i Mrs Dobbins a Miss Morris am drefnu'r cyfan ac roeddent yn dweud eu bod wedi mwynhau pob eiliad yng nghwmni'r genethod ac yn falch iawn ohonynt! Gorffennodd tim blwyddyn 8 wedi yn ail allan o 25 o ysgolion a Blwyddyn 7 wedi gorffen yn drydydd - ardderchog!





Blwyddyn 9 yn cymryd rhan mewn Her Beirianeg



Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion BL9 gymerodd ran mewn Her Beirianeg ym Mhrifysgol Bangor ar Chwefror yr ugeinfed. Mewn grwpiau wedi eu ffurfio ar y cyd â disgyblion eraill o Ysgol Friars, Tryfan a Dyffryn Nantlle roedd ganddynt hwy'r sialens o gynhyrchu generadur trydanol allan o K'nex. Roedd marciau yn cael eu dyfarnu am y generadur oedd yn cynhyrchu'r mwyaf o bŵer, adeiladwaith y generadur gan gynnwys y gôst derfynol o gynhyrchu'r generadur. Dyma'r disgyblion gynhyrchiolodd yr ysgol yn yr her yma'n llwyddiannus; Efa Baines, Mabli Baines, Hazel McMahon, Molly Chisholm, Ben Ellis-Jones, Jack Booth, Enlli Lloyd-Jones, Brychan Jones, Gwion Jones, Jac Petch, Harri Williams, Iolo Morris, Cai Moss, Noa Rhys, Owain Larsen a Joe Chester.



Drwy gynllun TRAC cafodd 5 disgybl y cyfle i ddilyn cwrs coginio gan TEC Cymru dan ofal Guy Williams sy'n gogydd a pherchennog y Villa Marina sef tŷ bwyta Eidalaidd yng Nghaernarfon). Penllanw'r cwrs ar ôl dysgu nifer o sgiliau coginio pwysig oedd y cyfle i dreulio bora yn Nhy Bwyta Villa Marina yn paratoi pryd 3 cwrs i griw o Ferched y Wawr a chôr ardal cymuned yr ysgol. Daethant hwy i loddesta yn y pnawn, a diolch yn fawr iawn am Mair Hughes am drefnu bod y merched

hyn ar gael I brofi'r bwyd roedd y disgyblion wedi ei baratoi. Dywedodd pawb eu bod wedi cael pryd tri chwrs bendigedig o fwyd gan y disgyblion ac wedi mwynhau yn arw. Diolch yn fawr iawn I asiantaeth TRAC am drefnu'r profiad gwych yna ar gyfer y disgyblion canlynol: Lisa Roberts (Bl11), Katrina Tabord (Bl11), Kacy Griffiths (Bl10), Phoebe Smith (Bl9) ac Ian Jones (Bl8)

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

Llongyfarch Mae Catrin Thomas, Bronallt, wedi derbyn Anrhydedd gan y Frenhines, sef Medal Polar am ei chyfraniad i waith ymchwil ym Mhegwn y De (Antartica). Ers nifer o flynyddoedd wedi treulio misoedd ein gaeaf ni yn yr Antarctic. Dyfernir y wobwr yma yn flynyddol ar eirida cydweithwyr. Mae Catrin hefyd yn gyfarwydd iawn â Phegwn y Gogledd.

Merch o Selly Park, Birmingham yw Catrin ond iddi ddisgyn mewn cariad â mynyddoedd Eryri a dechrau dringo. Derbyniodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Gwyddorau Amgylcheddol ac Astudiaethau Awyr Agored o Brifysgol John Moores, Lerpwl. Treuliodd ddwy flynedd ym Mhrifysgol Edmonton, Canada, yn gwneud Cwrs Gradd Meistr. Mae wedi gweithio yn Lerpwl a Chanolfan Addysg Awyr Agored Aberglaslyn, cyn sefydlu ei hun fel arweinydd dringo mynyddoedd.

Er i Catrin gael ei magu yn Birmingham, mae ganddi gefndir Cymreig. Derbyniodd ei mam radd BSc o Brifysgol Bangor ac yn ei dyddiau coleg roedd hithau yn dringo mynyddoedd. Yn wreiddiol o Gaerffili mae yn un o aelodau ffyddlon Merched y Wawr, Birmingham, ac yn un o gyfeilyddion Capel Cymraeg Bethel, Birmingham.

Llongyfarchwn Catrin ar dderbyn yr anrhydedd yma a dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol yn ei bywyd mentrus ac anturus.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod mis Chwefror, croesawyd y Parch Marcus Wyn Robinson i roi sgwrs i'r aelodau. Adroddodd i gychwyn hanes ei deulu ac yna ei yrfa a'i weinidogaeth yn Llanberis cyn sôn am ei benderfyniad i ymuno â'r Llynges Frenhinol fel Caplan. Trwy ei ffordd hwyliog o gyflwyno'r cyfan fe fwynhawyd y noson yn fawr gan bawb. Edrychir ymlaen at noson dathlu Gŵyl Ddewi ar noson y gangen ym mis Mawrth.

Bydd Cwis y Ffederasiwn yn cael ei chynnal yn y Ganolfan Gymdeithasol, Llanberis, nos Lun, Ebrill 8fed, am 7 o'r gloch.

Diffibrilydd Mae Curiad Calon Cymru wedi bod yn gweithio yn y gymuned yn ystod y misoedd diwethaf gydag Apêl i godi arian i bwrcasu dau ddiffibrilydd i'w lleoli yn y pentref. Erbyn hyn y mae'r cyntaf o'r ddau wedi ei osod ger prif fynedfa Caban. Bydd y ddau ddiffibrilydd yn derbyn cefnogaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a chynigir sesiynau hyfforddi o fewn y gymdogaeth maes o law. Diolchir i bawb sydd wedi ymateb i godi arian i'r Apêl hyd yn hyn. Gellir cyfrannu ymhellach drwy gysylltu â'r safle ar y we: - www.curiadcalon.org/brynrefail.html Gwerthfawrogir cyfraniadau personol neu ymdrech unrhyw un i drefnu gweithgareddau pellach i godi arian.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Ebrill am 5 yr hwyr

- 14: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon
- 21: OEDFA SUL Y PASG - Parch Gwenda Richards, Caernarfon
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 28: Mr Charles Wyn Jones, Llanrug

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Natur ar ei Orau Y dydd o'r blaen pan oeddwn yn yr Allt Ddu rhaid oedd i mi aros wrth cofgolofn y chwarelwyr a dyna lle y gwelais natur ar ei orau. Yr oedd y cennin Pedr bach yn edrych yn hynod o dlws ac yn llawn blodau a dim rhyw ychydig sydd yno ond clwstwr yn gorchuddio y gofgolofn i gyd. Diolch o galon i Mrs Betty Bower am ofalu amdanynt. Mae yn gwneud hyn bob blwyddyn ac yn parchu y chwarelwyr. Pwy fuasai yn meddwl y buasai hyn yn cael ei wneud yn 2019 a'r chwarel wedi cau ers hanner can mlynedd. Mae cryn ddiddordeb yn y gofgolofn o hyd a llawer yn falch o gael dod i gael golwg arni yn ystod y tymor. Betty, mawr ddiolch ichi unwaith eto.

Y Tywydd Mae'r hen ddywediad yn hynod o wir eleni am y tywydd, ers canol Chwefror yr ydym wedi cael pob math o dywydd. Cawsom dywydd bendigedig pryd yr oedd rhai yn meddwl bod yr haf wedi dod, ond ar ei ôl yr oedd mis Mawrth yn dangos ei ddannedd. Cawsom andros o dywydd, fe fu iddi oeri yn arw, dipyn o eira yna gwynt dwyrain cryf a hwnnw yn ddifrifol o oer. Pa ryfedd ei fod yn cael ei alw yn 'gwynt traed y meirw'. Mae yn disgrifio'r coed a'r gwrychoedd a'r rheini yn edrych yn frown hyll wedyn a mwy na hynny y mae yn gallu creu difrod mawr. Eleni mae Mawrth wedi dod i mewn fel llew, dim ond gobeithio yr aiff allan fel oen. Mae yn gwneud y gaeaf yn hir ac yn oer.

Trafnidiaeth Cyhoeddus Unwaith eto mae'n trafndiaeth cyhoeddus yn dal yn y newyddion fel ag yr oedd flwyddyn yn ôl. Er cael rhyw fath o amserlen, ofer yw'r cyfan, yn amlach na pheidio ni fydd yn cael ei gadw. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn dorcalonnus. Y trafndiaeth ddim yn troi i fyny am wahanol resymau, brecs wedi torri, dim gyrrwr, neu heb droi i fyny i'w waith. Yr oedd y gwasanaeth yn hollol annerbyniol, yn enwedig pan oedd pobl angen bws i fynd i'w gwaith yn y bore.

Rwyf wedi cael ar ddeall bod y cwmni presennol yn gorffen ddiwedd y mis, sef mis Mawrth, a bod gan y Cyngor gwmni arall dan sylw. Mae un peth yn sicr ni allant fod yn waeth na'r un sydd gennym yn awr. Ers pan ddechreuodd y problemau yma mae'r pentref wedi cael llai a llai o wasanaeth. Anodd credu nad oes bws yn mynd oddi yma i Fangor o gwbl, a digon chydig yn mynd i Gaernarfon. Nid yw pethau wedi bod yn hwylus o gwbl. Tybed a yw pentref Dinorwig yn cael ei anghofio yn gyfan gwbl. Pan mae'r problemau yn codi a hynny bron bob wythnos, nid yw Cyngor Gwynedd eisiau gwybod. Pa bwrpas yw cael tocyn am ddim i rai dros drigain oed pan nad oed bws i'w gael o gwbl. Gynghorwyr Gwynedd, beth am gofio am bentref Dinorwig. Pan fydd hi'n amser talu'r bil rydych yn cofio amdanom! Triwch gofio ei bod yn gweithio ddwy ffordd a'n bod yn byw yma haf a gaeaf. Rhaid yw cyfaddef bod y Cynghorydd Elfed Williams wedi gwneud ei orau drosom.

Cofion Ein cofion annwyl at y rhai sydd wedi bod yn cwyno neu sydd yn cwyno ar hyn o bryd. Hefyd ein cofion at Mrs Megan Morris yng Nghartref yr henoed. Pob dymuniad da a gobeithio am wellhad buan i bawb erbyn yr haf.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk



CWMY GLO



Capel: Gwasanaethau – Ar y 7fed o Ebrill am 2:00pm, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Ar Sul y Pasg, sef yr 21ain o Ebrill, bydd y Gweinidog yn arwain y gwasanaeth ac yn gweinyddu'r Cymun am 2:00pm.

Cynllun Efe: O dan nawdd gweithiwr Cynllun Efe, Susan Williams, cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Cristnogol newydd sbon yng Nghanolfan y Capel, Caeathro, brynhawn Sul y 10fed o Fawrth. Roedd cyfle i blant a'u rhieni fwynhau 'Crefft, Càn a Stori' ac i bawb gael paned gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol. Diolch yn fawr i bawb o bob oed a oedd gyfrannodd at lwyddiant y prynhawn.

O ganlyniad i'r llwyddiant hwn, cynhelir cyfarfod arall ar ddydd Sul, y 12fed o Fai, rhwng 2:30 a 4:00 y p'nawn. Unwaith eto, mae croeso mawr i blant a'u rhieni (a neiniau a theidiau, modrybedd ac ewythrod!) i rannu a mwynhau 'Crefft, Càn a Stori' ac i gael paned a sgwrs. Mae Tîm Caeathro yn estyn gwahoddiad cynnes i bawb ymuno, yn enwedig y rhai hynny sydd â phlant.

Ymgyrch Hel Sbwriel: Wedi ymgyrchu llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf, bydd cyfle eto i drigolion y pentref ymgynnull i hel sbwriel ar ddydd Sul y 7fed o Ebrill. Gofynnir i bawb ymgynnull tu allan i Ganolfan y Capel am 10:00am. Gwerthfawrogir pob cefnogaeth - dewch yn llu i gefnogi.

Helfa Wyau Pasg: Ar ddydd Gwener y Groglith, sef y 19eg o Ebrill, bydd cyfle i blant y pentref gymryd rhan yn yr Helfa Wyau Pasg blynyddol. Pawb i ymgynnull yng Nghewn Gof am 10:00am. Pob lwc blant!

Tynfa Misol: 1af (£40) – Rhif 30: J Evans, Llwyn Alice; 2il (£25) – Rhif 12: Zonia Bowen, Cefn Coed; 3ydd (£15) – Rhif 81: Sharon Hughes, 11 Glan Gwna; 4ydd (£5) – Rhif 33: Robin Evans, Bryn Eden.

Llongyfarchiadau – i Lewis, Hyfrydle, ac i Leona, 1 Bryn Gro ar achlysur dathlu eu penblwydd yn 18 oed.

Cydymdeimlad. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a Mrs Carol Evans a'r teulu, 15 Dol Afon yn eu profedigaeth o golli ei brawd, Melfyn Pritchard yn Llanberis. Roedd Melfyn yn enedigol o Gwm y Glo, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Pritchard, 23 Dol Afon.

Cydymdeimlwn hefyd a Mrs Mattie Hughes a'r teulu, Glyder, Llanberis yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl sef Mr John Hugh Hughes. Bu Mr Hughes yn gwasanaethu yn ffyddlon am flynyddoedd yng Nghapel y Tabernacl, a bu'n beirniadu yn eisteddfod a charnifal y pentref. Bydd bwlch enfawr i'r ardal ar ei ol.

Undeb y Mamau. Cyfarfu'r aelodau bnawn Mawrth, 19eg o Chwefror yn festri Eglwys Sant Mair. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi Undeb y Mamau. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Marjorie, Lesley, Joyce, Enid a Hilda. Croesawyd ein gwestai Michael a Marian Jones, a chafwyd Dorothy sgwrs a fideo am eu hymweliad a Buenos Aires, Ynysoedd y Falkland ac Antarctica. Mwynhawyd y sgwrs gan bawb a diolchwyd iddynt gan Dorothy.

Yn gofalu am y lluniaeth roedd Nerys a Pat. Diolchwyd iddynt gan Auriel. Terfynwyd y cyfarfod gyda'r gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfod Ebrill : Pnawn Tawel. Cyfarfod Mai : Trefniadau dathlu canmlwyddiant y gangen.

NANT PERIS



Pen-blwydd Hapus yn 90 oed i Jennie Wyn, Dwyfor, Nant Peris (Preswyllo ym Mhlas pen Gwaith, Llanberis) oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar yr wythfed o Fawrth.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllïan@cynulliad.cymru

Cyngerdd EGLWYS SANT PERIS NANT PERIS

Nos Sul- 5^{ed} Mai am 7o'r gloch

Gyda Côr Plant Ysgol Dolbadarn

Côr Meibion Dyffryn Peris

Stephanie Welsby

Ross Craigmile Karen Jones

Dylan, Ela a Lois Eifion

Julie Bulman Jones

• Arweinydd y Noson DAI TOMOS

Tocynnau (YN UNIG) £8.
Ffoniwch- Iola Owen 871457
YR ELW TUAG at EGLWYS NANT PERIS

Concert
Saint Mary's Church Nant Peris
SUNDAY MAY 5th. at 7pm

TICKETS (ONLY) £8. Phone- Iola Owen 871457



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948

williamshy@parliament.uk



Ysgol Gwaun Gynfi



Diogelwch y We

PC Dylan – wedi trafod diogelwch ar y we gyda pob dosbarth yn yr ysgol – dathlu wythnos diogelwch ar y we.



Ffarwelio

Yn dilyn 12 mlynedd yng nghegin yr ysgol, ffarweliwn gydag Anti Eleri. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd.



Diwrnod Dysgwyr Disglair

Ar Ddiwrnod Dysgwyr Disglair y tymor diwethaf gwelwyd lansio TTRockstars gyda Sioe Ffasiwn Sêr Roc Ysgol Gwaun Gynfi. Daeth rhieni a ffrindiau i weld y sioe ac i weld gwaith ardderchog y disgyblion ar y themâu Ffasiwn.

Dydd Gwyl Dewi

Cafwyd Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi hynod lwyddiannus gyda'r plant yn perfformio yn eu gwisgoedd Cymreig.



Ymweliad a'r Amgueddfa Lechi

Cafwyd diwrnod gwerth chweil yn Amgueddfa Lechi Llanberis yn cymryd rhan mewn gweithgareddau STEM i ddathlu wythnos Gwyddoniaeth. Buont wrthi'n ddiwyd yn arbrofi i greu Olwyn Ddŵr ac inclên.



Llwyddiant yn yr Eisteddfod

Ar ôl wythnosau o ymarferion cafwyd llwyddiant yn yr Eisteddfod gyda'r Côr a'r Parti Unsain yn dod yn 1af, a dod yn 1af ac 2il yn y gystadleuaeth Ymgom hefyd. Daeth Alys yn 3ydd gyda'r corn. Ymlaen nawr i'r Sir!



Prosiect Creadigol

Mae blwyddyn 1 a 2 wedi dechrau gweithio gyda Manon Awst ar Brosiect Creadigol yn dilyn derbyn grant o £8,000 i fentora ysgol Yr Hendre, Caernarfon ar weithio'n greadigol. Mae'r prosiect yn cychwyn yn Ysgol Gwaun Gynfi cyn mynd ar waith yn ysgol Yr Hendre.

Gwasanaethau Eglwys Crist

Dydd Gwener y Groglith (Mawrth 19) am 2yp

Sul y Pasg (Ebrill 21) am 3yp Y Cymun Bendigaidd

Gwasanaethir yn y ddau wasanaeth gan Y Canon Idris Thomas

Marwolaeth Bore Gwener, 22 Chwefror, yn Aberystwyth, hunodd yn dawel yn 94 mlwydd oed Will Price Jones, Rhiwen gynt. Mab y diweddar Evan Deiniol a Jane Price a brawd y diweddar Robin Ellis a Jane Catherine Hughes. Bore Llun, 4ydd Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Seion, ac wedyn yn Amlogfa Aberystwyth.

Clwb Blynyddol y Band 2019

1. 144 Mrs Ann Roberts, Bangor: £30; 141 Ceri Caulcott, Caernarfon: £20; 45 Nia Jones, Gwêl Elidir: £10.
2. 162 Osian Ll. Hughes, Caernarfon: £30; 8 Heulwen, Dinorwig: £20; 160 Gareth Williams, Deiniolen: £10.
3. 128 Catrin E. Jones, Bontnewydd: £30; 27 Falmai Williams, Deiniolen: £20 48 Marged Elin Siôn, Rhos: £10.
4. 118 Huw Owen, Bethel: £30; 142 Shân, Bethel: £20; 81 Neil Rowlands, Garej Cwm: £10.
5. 102 Pat Smith, Ffridd Ellen: £30; 151 Wyn Hughes, Cringae: £20; 54 Hegin G. Jones, Llanrug: £10.
6. 49 Dafydd W. Williams, Pentre Helen: £30; 14 Ronald Pleming, Llanrug: £20; 39 John Griffith, Fron: £10.
7. 106 Alaw Prys Huws, Bethel: £30; 135 Owen Williams, Manceinion: £20; 138 Meirion Jones, Tai Caradog: £10.
8. Julie Morris, Caeathro: £30; 137 Glenda Jones, Maes Gwylfa: £20; 106 Alaw Prys Huws, Bethel: £10.
9. 2 J.M. Jones, Bethel: £30; 83 Elizabeth Foster, Pentre Helen: £20; 100 Neville Williams, Victoria Terrace: £10.
10. 42 Beryl Williams, 101 Pentre Helen: £30; 54 Hefin G. Jones, Llanrug: £20; 146 Jennie Williams, Rhydfadog: £10.

Clwb Snwcer Dymuna pwyllgor y clwb snwcer gyhoeddi fod tâl aelodaeth 2019 y clwb angen ei dalu erbyn Ebrill: oedolion £10.00 a phlant £5.00 (dros 10 oed).

Hoffwn hefyd ofyn am eich cymorth gan ein bod angen codi arian er mwyn ail osod wyneb newydd ar y ddau fwrdd gyda chost o £1250.00. Os gallwch gynnig unrhyw gymorth tuag at hyn byddwn yn ddiolchgar dros ben. Os byddwch yn gallu cynnig cymorth cewch gysylltu gyda Colin Worth, ysgrifennydd y clwb ar 01286 871764.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd gan obeithio iddo gario ymlaen yn y dyfodol.

Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams Bydd gwasanaeth bysus Arriva rhif 83 a 85 yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth. Mae cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd mewn trafodaethau gyda chwmni lleol ar gyfer cymryd drosodd y gwasanaeth bws yma gan Arriva. Gobeithio y bydd llwyddiant ag y gallwn eich diweddarau yn fuan.

Yn dilyn derbyn amryw o gwynion gan drigolion y ward ynglŷn â baw ci, bydd swyddogion y Cyngor yn dod ag arwyddion ynglŷn â'r mater i'w gosod yn yr ardal yn rhybuddio perchnogion cŵn mai trosedd yw gadael baw ci heb ei godi. Bu cyfarfod rhwng y Cynghorydd a'r warden cŵn dydd Iau, y 14eg o Fawrth, er mwyn trafod y mater ymhellach er mwyn sicrhau eu gwasanaeth i'r ardal.

Cymdeithas Lenyddol Deiniolen Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Alwynne Morris Jones, Bethel, ddiwedd mis Chwefror. Trafodwyd hanes codi adeilad Hafod Eryri ar ben yr Wyddfa o'r cychwyn trwy'r cyfnod adeiladu hyd at ei orffen. Roedd yn ddifyr clywed yr hanes gan un oedd gyda rhan ganolog yn y gwaith gan werthfawrogi gwaith caled y gweithwyr arbennig a fu'n rhan o ddatblygiad unigryw iawn.

Mae gennym un noson arall o'r tymor ar ôl pan ddaw Mr Rhys Jones, Waunfawr, i roi ychydig o hanes y Gog i ni. Yna bydd swper blynyddol y gymdeithas ddiwedd Ebrill gyda adloniant arbennig wedi ei drefnu.

Eisteddfod Yr Urdd Gyda thymor yr eisteddfodau lleol wedi dechrau, balch iawn oeddem o weld llwyddiant Ysgol Gwaun Gynfi eto eleni. Cafodd y parti canu a'r côr y wobr gyntaf, hefyd yn gyntaf ac ail oedd y ddau barti ymgom, ac aeth y criw dawnsio gwerin hefyd ymlaen hefyd i'r eisteddfod sir. Dymuniadau gorau iddynt a diolch i'r rhai a fu'n eu hyfforddi.

Dartiau Llongyfarchiadau mawr i Darren Bingham o dafarn y Wellington ar gael ei ddewis i chwarae dartiau dros Gymru, dipyn o gamp yw cael ei ddewis, da iawn wir.

Arholiadau Gyda'r tymor arholiadau yn prysur agosau, dymuniadau gorau i bobl ifanc yr ardal sydd wedi dechrau paratoi ar eu cyfer.

Salwch Dymuniadau gorau i unrhyw un sydd wedi dioddef salwch yn ddiweddar.

Hanesion y pentref Unwaith eto mis yma, digon prin yw'r newyddion sy'n dod i law am y pentref a'i drigolion. Mae rhywun yn ymwybodol fod digon o brysurdeb yn y pentref ond nad yw hynny yn cael ei gofnodi. Gyrrwch eich hanesion neu luniau i ni allu adrodd eich hanes.

Profedigaeth Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Robin Thomas, Pentref Helen. Dyn annwyl iawn a bydd colled fawr ar ei ôl i'w deulu, ffrindiau a chymdogion.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch [redacted] ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)

Un funud fach ...

DAMHEGION

I rai, mae'n ffilm fer gelfyddydol. I eraill, mae iddo athroniaeth ddofn ynghylch bod yn wahanol. I eraill eto, mae ynddo sylwebaeth dreiddgar ar wrywdod; yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddynol heddiw. I mi, hysbyseb aneffeithiol ydi o: dyn yn sefyll ar ben trawst gôl ar gae pêl droed yn cyhoeddi, 'Nid oes arnaf ofn'.

Nid oes arno, meddai, ofn arwain nac ofn cael ei feirniadu nac ofn gofyn am gymorth nac ofn dweud wrth ei ferched ei fod yn eu caru. Nid oes arno ofn bod yn fo ei hun chwaith. Ac nid oes arno ofn bod yn wahanol. Mi fentraf ddweud nad oes ar y dyn hwn ofn twyllo chwaith. A ddisgwylir i ni gredu y byddai Harry Kane, capten tîm Lloegr a phêl-droediwr gwerth degau o filiynau o bunnoedd, yn mentro braich a choes a throed trwy sefyll ar ben trawst yn enw cwmni sy'n cynhyrchu rasal shafio? Gallaf glywed perchnogion Tottenham Hotspur yn dweud, 'Bosib, Harri bach, nad oes arnat ti ofn, ond mae arnom ni arswyd dy weld yn syrthio oddi ar y trawst yna!'

Mae'n debyg fod yna gyd-destun i'r hysbyseb hwn a'i fod yn ymateb i hysbyseb a gynhyrchwyd yn gynharach eleni gan gwmni arall yn yr un maes. Neges hysbyseb Harry Kane yw 'bod pob dyn yn wahanol'. Mae'n debyg mai fi sy'n ddwl, neu fy mod yn methu â gwerthfawrogi eironi neu neges gudd yr hysbyseb. Mae rhywbeth od ynglŷn ag o. Y tro cyntaf i mi ei weld, mi feddyliais fod y dyn ar ben y trawst yn galw am help am ei fod ar fin neidio a gwneud niwed iddo'i hun. Ond wedi dweud hyn i gyd, mae'n rhaid cydnabod fod dyn barfog yn hysbysebu rasal shafio yn sicr yn 'wahanol', os nad yn wirion!

Byd cwbl ddieithr i mi yw marchnata a hysbysebu. Ond synnwn i ddim nad oes yna debygrwydd rhyngddo a'r hyn yr oedd Iesu Grist yn ei wneud trwy ei ddamhegion. Cyflwyno darlun neu ddweud stori a wnâi yntau, a'r darlun neu'r stori yn gerbyd i gario'r neges am Deyrnas Dduw at ei wrandawyr. Weithiau, roedd neges ei stori'n weddol amlwg, fel yn nameg y ddafad golledig (Luc 15:1-7). Dro arall, roedd angen iddo egluro'r ystyr, hyd yn oed i'w ffrindiau agosaf, fel y gwnaeth gyda dameg yr heuwr (Mathew 13:1-9 a 18-23). Ond ran amlaf, byddai Iesu'n gadael i'w wrandawyr feddwl am y darlun a cheisio deall y neges drostynt eu hunain. Beth oedd y trysor (Mathew 13:44)? Pwy oedd y mab afradlon (Luc 15:11-32)? Neu sut yn union y dylid deall y stori am yr hedyn mwstard (Marc 4:30-32)? Y mae i holl ddamhegion Iesu ystyr, ac y mae Iesu ei hun yn awyddus i ninnau ganfod y neges y mae'n ei chyflwyno i ni trwyddynt.

JOHN PRITCHARD

Pigion Byd Natur Coelion ym Myd Pysgod



Powlenni, pysgodlynnoedd, tanciau dŵr a physgod yn gwibio yma ac acw, a'r cyfan welwch chwi'n rhan o'ch breuddwydion tra'n cysgu?

'Y mae'r sawl a wêl yn ei freuddwyd frithyll,' ia! arhoswch da chwi amdano, 'yn mynd i gael cariad newydd sbon danlli!' Dyna'r goel a gofnodir gan y Parchedig D.G. Williams yn ei gasgliad 'Llên Gwerin Sir Gaerfyrddin' yn Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 1895. Dywed hefyd bod 'gweld eog yn nofio mewn dŵr yn golygu bod beichiogi ar ddigwydd, a baban ar ddyfod i'ch byd.'

Ceir run goel hefyd yn yr Alban ac yng ngogledd Lloegr. Bu i'r seicolegydd-niwro, sef Sigmund Freud (1856-1939) yn ei lyfr Interpretation of Dreams (1900) awgrymu mai dymuniadau cuddiedig sy'n llechu yn yr isymwybod, sy'n bennaf gyfrifol am greu breuddwydion. Dydy'r 'pysgodyn breuddwydiol' ond cyflwr cyn-enedigol, sef bywyd yn y groth ddynol. Yn yr Hen Fyd Ffoeniciaidd Asyriaidd-Fabloniaidd, symbol cyfystyr â ffrwythloni ydyw'r pysgodyn.

I Awstralia yr awn ni nesaf, i fyd yr Aborigini, a'r byd breuddwydiol o'u heiddynt sy'n gymaint rhan o hanes Creu'r Ddaear. I'r Aborigini bodau mytholegol ar ffurfiau creaduriaid, a physgod yn eu plith, sy'n gyfrifol am greu'r amgylchedd.

O bosib, gwrthrychau oerion, llefn-dew, distaw sy'n byw yn y dŵr, dyna sut gwêl ddyn bysgod. Y maent fel petaent yn bodoli mewn rhyw arall-fyd, sy'n orlawn o ddistawrwydd a dieithrwrch. Y mae breuddwydio am bysgodyn a anafwyd, un budr a thrybeilig hyll ran ei olwg, yn rhybudd pendant fod na amser go galed ar ddyfod.

Breuddwyd hefo llygaid sgodyn yn rhan ohono? Yna, dylech fod wastad ar eich gwyliadwriaeth.

Ust! Ia! wir ddyn, ust!

Gall gweld tra'n breuddwydio nifer go fawr o bysgod, a'r rheiny yn rhai blasus i'w bwyta, beri i chwi fod yn tu hwnt o hapus, gan eich bod ar fedr cael rhywbeth o werth, ac o wir fwynhad, yn eich bywyd!

Fel -

Fel baban...

Ust!

Ie! wir y cyfan a ddywedaf i ydy daliwch ati... ia! daliwch ati da chwi... i freuddwydio! A gora oll os ydy'r pysgod ar gael yno!

D.G.

Premier

Y Stofa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug

01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Eglwys St Helen

Gwasanaethau Mis Ebrill

Dydd Sul Ebrill 7fed: Cymun Bendigaid am 11yb

Dydd Sul Ebrill 14eg: Sul Y Blodau Cymun Bendigaid am 11yb

Dydd Gwener y Groglith Ebrill 19eg: Awr Dawel am 2yp

Sul Y Pasg Ebrill 21ain: Cymun Bendigaid y Pasg am 11yb

Dydd Sul Ebrill 28ain: Boreol Weddi

Addurno'r Eglwys Fe fydd yr Eglwys yn cael ei addurno ar gyfer y Pasg i ddilyn gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith am 3yp

Cronfa cynnal a chadw y fynwent Hoffai swyddogion yr Eglwys ddiolch am y rhoddion canlynol tuag at gronfa cynnal a chadw y fynwent yn ystod mis Chwefror a Mawrth: £100 er cof am Mr Dylan Griffith gan Meinir Griffith a'r teulu Penisarwaun; £50 Mr & Mrs D.C. Williams, Y Felinheli; £25 Mr Selwyn Griffith, Llanrug.

Gyrfaon Chwist Cynhelir gyrfaon chwist yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7yh.

Bingo Arian Yn ddechrau o nos Fercher, Ebrill 3ydd, ymlaen fe gynhelir y Bingo arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher, drysau yn agor am 7yh gyda'r Bingo yn dechrau am 7.15yh (heblaw am Ebrill 24ain).

Wythnos weithgareddau a charnifal Fe gynhelir yr wythnos weithgareddau y flwyddyn yma gan ddechrau Nos Lun, Mehefin 24ain, a dod i ben ar y Nos Sul, Mehefin 30ain.

Cynhelir te, tost a sgwrs am ddim yn Neuadd yn Eglwys pob bore dydd Llun gan ddechrau Dydd Llun, Ebrill 1af, o 9yb – 11yb. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Festri Pasg Fe gynhelir y cyfarfod blynyddol o Festri Pasg St Helen i ddilyn gwasanaeth y Cymun bore Sul y Blodau, Ebrill 14eg. Fe bydd dyddiad ar gyfer cyfarfod cynulleidfaoel ychwanegol arall y cael ei benderfynu a'i gyhoeddi yn y cyfarfod yma, er mwyn trafod materion sydd wedi codi yn ddiweddar.

Festri Pasg Bro Eryri Fe gynhelir Festri Pasg Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, Ebrill 24ain, am 7yh

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Dathlu Gŵyl Ddewi - Cynhaliwyd cyngerdd a phaned a chrempog a drefnwyd gan y Pwyllgor Neuadd. bnawn dydd Mawrth, 5 /3/19, gyda phlant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor yn paratoi'r adloniant. Roedd llawer o wahanol bobl o'r Gymuned wedi troi i mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn ardderchog. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.

Mwynhawyd cinio blasus wedi ei baratoi gan Anti Carolyn dydd Mercher, Mawrth 6ed.

Diwrnod y Llyfr - Roedd yn braf iawn gweld mwyafrif helaeth o'r disgyblion wedi gwisgo fel cymeriad allan o'u hoff lyfr dydd Iau Mawrth 7fed.

Eisteddfod Cylch yr Urdd - Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Mawrth 9fed. Llongyfarchiadau i Olwen am ddod yn 3ydd ar yr Unawd Piano i Flwyddyn 6 ac iau. Diolch i Noa am gystadlu ar yr Unawd i Flwyddyn 2 ac iau ac Efan ar yr Unawd Blwyddyn 3 a 4. Daliwch ati. Nos Fercher, Mawrth 20fed, bu Megan, Lois, Nel a Simone yn cystadlu yn yr Eisteddfod Symudol fel rhan o grŵp dawnio "Llŵch Lloer". Da iawn chi i gyd.

Noson Cwis - Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus yng nghwmni criw bychan o ffrindiau'r Ysgol nos Iau, Mawrth 14eg. Diolch i Mr Eifion Harding am gytuno i gymryd sedd y Cwis Feistr ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at y noson. Gwnaed elw o £109 i gronfa "Cyfeillion" yr Ysgol er budd y disgyblion.

Pleser mawr oedd cael croesawu cyn ddisgybl yn ôl i'r ysgol yn ddiweddar. Daeth Eurgain Haf i drafod ei gwaith fel Rheolwr y Cyfryngau a Chyfathrebu i Achub y Plant. Cafwyd bore diddorol iawn yn dysgu am hanes a gwaith Achub y Plant ar draws y byd. Mae pawb yma bellach yn frwdfrydig i gefnogi dathliad canmlwyddiant yr Elusen fis Mai. Diolch i Eurgain am ei chefnogaeth.

Cyngerdd Mawreddog i dathlu Canmlwyddiant Achub y Plant- Mae Annette Bryn Parri wedi bod yn ymweld â'r ysgol

yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae'r plant yn prysur ddysgu'r caneuon y mae hi a Gwyn Parri wedi eu cyfansoddi ar eu cyfer. Mae cynnwrf mawr yn yr ysgol gyda phawb yn edrych ymlaen at recordio CD yn Stiwdio Sain. Byddant yn perfformio mewn cyngerdd Mawreddog yng Nghadeirlan Bangor Nos Sadwrn, Mai 18fed, yng nghwmni Gwyn Hughes Jones a'i briod Stacey Wheeler ynghyd â Trio ac Annette Bryn Parri. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at gronfa Achub y Plant.

Croesawyd Mrs Susan Williams i'r ysgol pnawn dydd Iau, Mawrth 21ain, Mae'r plant wrth eu bodd yn cael stori a chanu yn ei chwmni. Diolch yn fawr iawn.

Ail gylchu Antur Waunfawr - Diolch i bawb sydd yn dod â dillad ayyb i'r bin ailgylchu sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniad ariannol i'r ysgol bob tro mae'r bin yn llawn. Daliwch ati !

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Chwefror oedd Chris Anderton, Commercial Cottage, gyda rhif 57. Llongyfarchiadau! **Cydymdeimlad** - Rydym yn cydymdeimlo gyda Mrs Megan Roberts a'r teulu, 13 Bryn Tirion, ar golli ei phartner annwyl, Emyr, a fu'n brwydro'n ddewr yn erbyn salwch blin am flynyddoedd lawer.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Michael a Janice Jones a'r teulu Tyddyn Perthi yn eu profedigaeth mor annisgwyl yn ddiweddar. Bu farw ei chwaer, Mrs Beryl Roberts, (gynt o Racca) yn ei chartref yng Nghaernarfon.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd Phyllis Elis, Rhosfair, a Rhian Thomas, Seion.

Atgoffir chwi aelodau ffyddlon ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth, arian neu siec i Leslie Larsen, ac mae modd talu trwy Archeb Banc. Braf oedd deall bod pedwar aelod newydd wedi ymaelodi ac, wrth gwrs, mae croeso i eraill ymuno. Mae'r Clwb Cant o gymorth mawr tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Bu dathlu Gŵyl Ddewi yn hynod lwyddiannus bnawn Mawrth, Mawrth Ynyd, gyda eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor. Diolch i Glyn a Myfanwy am y baned a'r crempogau hyfryd. Diolch o galon i chwi rieni a ffrindiau am eich cefnogaeth gref.

Cynhelir Disgo Pasg nos Iau, Ebrill 11, o 6 tan 7.30. Mae croeso i chi wisgo gwisg ffansi ac addurno het Basg. Pris mynediad yw £1 a bydd cŵn poeth ar werth ynghyd â raffl.

Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod nos Fercher, Gorffennaf 10fed, am 6.00 yr hwyr. Bwriedir cynnal noson 'profi gwin' gyda'r Parch Marcus Robinson cyn hynny a bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf. Edrychir ymlaen am eisteddfod fyrlymus eto eleni.

Ysgol Sul Bosra Mae nifer yr aelodau yn cynyddu yn wythnosol. Croesawyd aelod bach newydd arall, sef Jac Ifan, ac ymunodd yn syth yn symudiadau'r caneuon ac mae yn hollol hapus yng nghwmni Myfi, Anest, Jac, Ioan a Elis. Braf oedd cael cwmni Guto ac Ela o Ysgol Brynrefail a ddaeth yn wirfoddol i helpu gyda'r rhai ieuengaf. Mae croeso mawr i chi ddod atom unrhyw adeg. Bydd yr Ysgol Sul yn cael seibiant dros wyliau'r Pasg. Ni chynhelir Ysgol Sul ar Ebrill 14eg na 21ain ond byddwn yn ailgychwyn fore Sul, Ebrill 28ain, o 10 tan 11.15. Croeso cynnes o hyd i aelodau newydd ddod atom.

Diffibrilydd Wedi cyfarfod cyhoeddus ar Ionawr 14 i drafod cael diffibrilydd i'r pentref y mae llythyrâu bellach wedi'u rhannu i bob cartref ac mae'r ymateb hyd yn hyn yn addawol dros ben. Gellir rhoi'r arian neu siec mewn amlen i'r casglwr lleol neu'r trysorydd, David Greene, Tai Croesion. neu gellir ei adael yn yr ysgol. Dymunir diolch o galon am eich haelioni a'ch cydweithrediad.

Tâl yr Eco Bydd y dosbarthwyr yn hynod falch o dderbyn eich taliad o £10 eleni am yr Eco gyda diolch o galon am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Pencerdd Alltwn

Derbyniwyd y canlynol gan Beti Wyn Williams (Llanberis gynt), sy'n hannu o deulu'r Brithdir, Gwaun Cwm Brwynog. Tra'n chwilio drwy bapurau teuluol yn ddiweddar daeth ar draws yr erthygl fer hon am Bencerdd Alltwn, wedi ei chopio gan ei thaid, William Henry Jones. Roedd dwy o chwiorydd ei thaid – Margaret ac Annie, wedi mudo i Efrog Newydd ar droad y ganrif ddiwethaf, ac yno y cyfarfu Margaret â'r Pencerdd, a phriodwyd y ddau yn 1917.

Mae'r erthygl yn cael ei chynnwys yma yn union fel yr ysgrifennwyd hi. Yn anffodus, nid yw blwyddyn marw Pencerdd Alltwn wedi ei gofnodi. Tybed oes unrhyw un o'r darllenwyr â mwy o wybodaeth am Bencerdd Alltwn, ac a oes rhai o'r teulu'n parhau yn y fro.

Y Diweddar Owen John Griffith, New York.

Yn Adnabyddus wrth ei enw Pencerdd Alltwn- yn Gerddor a bardd o fri.

Gan Humphrey Griffith.

Utica : Dyma ddarlun da o fy niweddar gyfaill Owen John Griffith (Pencerdd Alltwn), yr hwn a fu farw yn ei gartref clyd yn ninas New York, Chwefror 16.

Ganwyd yn Llainygro, Arfon, ac yn fab i'r diweddariaid Griffith Owen Griffith a Catherine Edwards.

Cawn iddo adael Llanrug yn bur ifanc i ardal Dinorwig, i gartrefu gyda ei daid a'i nain. Pan yn 13 oed dechreuodd ei yrfa trwy gerdded ar hyd llwybrau caregog sydd yr arwain i brif swyddfa chwarel Dinorwig ac yno y dechreuodd ar ei orchwyl fel llythyr glydydd yn swyddfa a'r Llythyrdy yn Llanberis, swydd o ymddiried i un mor ifanc. Llanwodd hwn i'r ymylon am beth amser, ond death awydd cryf arno i ddysgu yr alwedigaeth o chwarelwr, a chawn ef yn gafael ynddi yn ddiwyd, a buan y death yn chwarelwr medrus.

Adnabyddid ef yn y chwarel wrth yr enw 'Now Bach y Post'.

Cymeriad ydoedd Owen Griffith a fawr hoffid gan ei gydweithwyr: cymerai ddyddordeb mawr mewn cerddoriaeth; magwyd ef mewn ardal gerddorol, yn un o'r ardaloedd mwyaf rhamantus yn Ngwalia, sef bro y Wyddfa. Un o feibion y mynydd oedd Owen. Cafodd ei ddwyn i fynu yn swm miwsic y nentydd a'u dyfroedd grisialaidd a'i blodau amryliw oedd yn gorchuddio yr ardal brydferth, a gwelais ef ar lawer noson ar hwyrddydd haf. Yn myned i goed Alltwn i wrando cor y goedwig, sef adar yn telori eu halawon per, a chredaf mai yno yr yfodd yn helaeth awyddfryd ei gallon.

Yr oedd yr ymadawedig yn gerddor medrus ac yn chwaraewr da ar ei offeryn. Cafodd ei ddewis allan o lu mawr o ymgeiswyr i fod yn organydd eglwys Dinorwig, swydd a lanwodd am rai blynyddoedd. Meddai ar lais da a safodd arholiad Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, mewn tair o Eisteddfoda Cenedlaethol, gan ymofyn urdd cerdd ofydd. Tystiolaethir hyn i'r urdd gael ei chyflwyno iddo, ac ar ol hyn aeth ei enw i lawr ar gofrestrau yr Orsedd fel Eilydd Alltwn. Cymerodd yr arholiad hyn yn Eisteddfod Llanelli : yr arholwyr oeddynt Eifionydd, cofiadur yr Orsedd a John H Roberts (Pencerdd Gwynedd) a chawn ef yn



sefyll arholiad yn Eisteddfod genedlaethol Rhyl.1904. yn yr hon y bu yn llwyddianus. Ni bu iddo laesu dwylaw nes iddo gyrraedd pinacl anrhydedd ei fywyd, a hynny yn Eisteddfod Genedlaethol Mountain Ash: bu'n llwyddianus i enill yr arholiad am Urdd y Pencerdd, ac urddwyd ef yn ol braint a defod beirdd Ynys Prydain. A sylwed y darlennydd ei fod wedi tynnu ei ddarlun yng nghwisg yr Orsedd.

Oherwydd dirwasgiad yn y chwarelau bu gorfod i fy hen gyfaill droi ei wyneb i'r Talaethau yn y flwyddyn 1905, gan sefydlu yn Granville, y man mwyaf prydferth a thynaf iddo ef, canys yno y gorwedd gweddillion ei Dad a'i fam er's llawer blwyddyn. Ni fu arhosiad Owen yn Granville yn rhyw hir iawn; trodd ei wyneb am ddinas Efrog Newydd, lle y bu yn llwyddianus i sicrhau safle dda, ac yn goron ar y cwbl yno y cyfarfu a priod ei fynwes, a hyhi hefyd yn un o ferched Bor'r Wyddfa.

Cawn iddo ymuno mewn glan briodas yn y flwyddyn 1917 a Margaret Jones, merch Michael ac Ann Jones, y Brithdir, y Waen Cwmbrwynog, Llanberis, yr hon sydd wedi ei gadael i alaru ar ol priod tyner a gofalus.

Torwyd ein cyfaill ymdawedig i lawryr oedran cydmarol, cyn iddo gyrraedd ei 45 mlwydd oed. Ni fu yn wael ond prin dau ddiwrnod. Cafodd ei alw adref i freichiau ei waredwr ac yn awr mae Pencerdd wedi ymuno a chor mawr y nefolaidd lu, ac yr wyf yn sicr ei fod wedi cyrraedd pen ei daith, ac mae wedi ymuno chor sydd yn canu mewn lle nad oes poen na chlwyf, ac ei fod heddiw yn canu yn swm y Delyn aur. Huned ein cyfaill yn dawel ym meddrod y teulu yn mynwent Granville, lle y daeth llu o gyfeillion yng nghyd i dalu y gymwynas olaf i'n hanwyl frawd.

Gwasanaethwyd yr yr angladd gan ddau o weindogion y dref. Derbied ei weddw yng nghyd a'i frodyr a'i chwiorydd ein cydymdeimlad dyfnaf yn eu trallod. Cawd pregeth goffadwriathol er cof am dano yng Nghapel 11th Street gan Y Parch Joseph Evans. Yr oedd Mr. A Mrs Edmund Lloyd o'r ddinas hon yn gyfeillion mynwesol i'r ymadawedig, ac fe aethant yr holl ffordd i Granville i'w angladd.

Dymunir ar i bapurau Caernarfon gofnodi'r uchod.

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboist- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYNN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y 5ed Chwefror 2019

Croesawyd Catrin Roberts , Rheolwr Cartrefi Fforddiadwy, Grŵp Cynefin.

Mae Tai Teg, yn adran arall sydd yn dod o dan adain Grŵp Cynefin. Cafwyd cyflwyniad gan Catrin. Esboniodd yn syml, mai cofrestr tai fforddiadwy ar-lein yw Tai Teg sy'n cynnig cartref fforddiadwy i bobl leol am bris llai na gwerth y farchnad, naill ai i'w rentu neu brynu. Ers sefydlu'r gofrestr, mae dros hanner cant o bobl wedi bod drwy'r broses o ddarganfod cartref i'w brynu neu ei rentu.

Bu i Catrin drafod a rhannu gwybodaeth am y gwahanol gynlluniau sydd ar gael. Rhoddodd esiampl o'r cynllun drwy siarad drwy'r holl gynlluniau sydd posib o Rhent canolraddol, Prynu Cartref, Rhan Ecwiti, Eiddo Adran 106 a discownt, Rhan Berchnogaeth, Rhentu i'w brynu, a hunan Adeiladu, a hyn sydd ar gael yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Esboniodd yn arbenig am eiddo ym Mrynrefail lle mae Grŵp Cynefin yn ystyried ei werthu o dan un o'r cynlluniau Fforddiadwy. Cafwyd cyfle i holi ac ateb, cyn i'r cyflwyniad ddod i ben. Mae mwy o wybodaeth i'w weld ar y wefan www.taiteg.org.uk

Rhoddodd y Cadeirydd air o ddiolch iddi am gyflwyniad ac esboniad i'r hyn mae'r cynllun yn geisio ei wneud i helpu pobl ifanc i gael cartrefi i fyw yn yr ardal, mewn amser anodd.

Cofnodion Cyfarfod 8fed Ionawr 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Canolfannau Iaith – Derbyniwyd llythyr gan Garem Jackson yn cadarnhau derbyn ein llythyr mewn perthynas â thoriadau i gyllideb y canolfannau iaith, ac eu bod dal mewn cyfnod ymgynghori, a bydd pob sylw a dderbynnir yn cael eu hystyried. Cae Goronwy – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau na fydd Cyngor Gwynedd yn bwrw ymlaen gyda cais y perchnogion i wro y llwybr gwreiddiol. Nodwyd y penderfyniad hwn ar sail y gwrthwynebiadau a roddwyd gerbron y Cyngor.

Rhiw Goch – Yn dilyn cynnal cyfarfod ar y safle gyda'r swyddog cynllunio, mae'r pwyntiau a godwyd yn dilyn y cyfarfod hwnnw

bellach wedi eu gyrru mlaen i Gyngor Gwynedd..

Tir ger Monfa Cottage – Er fod y Cyngor wedi penderfynnu nad oedd gwrthwynebiad i'r cais yma, mae mwy o wybodaeth wedi dod i law. Yn dilyn cyfarfod gyda Cyngorydd Sir a Cyngorydd Cymunedol gyda cymdogion ger yr adeilad, penderfynwyd Gwrthwynebu y cais yma.

Gohebiaeth a materion eraill

Pwyllgor Pentra – Derbyniwyd llythyr gan y grŵp, sydd yn weithgar ac maent wedi gytuno ar flaenorieuthau er mwyn gwella a datblygu'r pentref yn Neiniolen. Mae'r grŵp eisioes wedi ail sefydlu Clwb Ieuenctid yn y pentref ac yn edrych i gymeryd cyfrifoldeb am gae peldroed a ystafelloedd newid Y Bwthyn, er mwyn eu diogelu i'r dyfodol, ynghyd ac edrych ar safleoedd addas ar gyfer datblygiad hamdden yn y pentref.

Y cais a roddwyd gerbron Y Cyngor, oedd, derbyn trosglwyddiad o'r safle gan Gyngor Gwynedd, ac yna Y cyngor Cymuned yn trosglwyddo y cyfrifoldeb rheoli i'r Pwyllgor Pentref. Nol yn ddechrau 2018, cafwyd cyfarfod gyda Kenneth Wyn Jones, o Gyngor Gwynedd, a'r pryd hynny codwyd cynifer o bwyntiau a fyddai yn broblem aruthrol i'r Cyngor Cymuned.

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen mewn egwyddor yn cefnogi Pwyllgor Pentref, ond yn anffodus ddim mewn sefyllfa i ymrwymiad ar y mater yma. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon cysidro unrhyw gais ariannol i gefnogi y grŵp yn yr her.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Parc Wern 1 – Estyniad a newidiadau

Ty'n Rhos, Bethel – Tocio Coeden a gorchymyn gwarchod coed arni.

Lôn Cae Hywel – Mae twll da yn y lôn sydd heb ei lenwi ers 2 flwynedd. Y clerc i yrru cais i Gwynedd.

Diffib Deiniolen – Mae Menter Fachwen wedi rhoi caniatad i osod Diffriblydd ar ochor Tŷ Elidir yn Deiniolen. Diolch yn Fawr.








✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.

✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

✓Adran teithiau grŵp.

✓Tocynnau rhodd.

✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

POSH PAWS



TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen

(01248) 671382 • 07935324193

ebost-juliaposhpaws@btinternet.com

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 19fed Chwefror 2019.

Gwasanethau Bws

Derbyniwyd gyflwyniad gan Rhian Wyn Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a

Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd am y sefyllfa bresennol parthed gwasanaethau bws yn Llanrug a Chwm y Glo.

Caeau Chwarae

Adroddwyd fod cyfarfod wedi'i gynnal ar gae chwarae Nant y Glyn yn dilyn cwyn a dderbyniwyd ar gyflwr y ffens a bod angen adnewyddu rhannau o'r ffens. Penderfynwyd cael tri pris am wneud y gwaith.

Gwefannau Cymdeithasol

Adroddwyd, oherwydd ein bod yn defnyddio gwefan 'Nextdoor Llanrug' i hyrwyddo digwyddiadau, fod angen polisi i ymdrin a sut mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio. Penderfynwyd derbyn y polisi a'i hysbysu ar ein gwefan

Ysgol Gynradd Cwm y Glo.

Adroddwyd fod yr ysgol yn mynd i gau yn swyddogol ar ddiwedd Awst.

Adroddiad gan y Cyngorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.

Cyllideb 2019-20

Adroddwyd fod y Cyngor wedi cael y ffigyrau terfynol gan Lywodraeth Cymru ac, fel y tybiwyd roedd twll o £13m yn y gyllideb. Erbyn hyn mae peth arbedion wedi eu cynllunio a rhai arbedion effeithlonrwydd wedi ei gwneud, ond roedd hyn yn dal i olygu fod rhaid ffeindio mwy o arbedion.. Bydd adroddiad yn mynd i'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth i wneud y penderfyniad terfynol ynghyd a faint i godi treth y cyngor.

Ysgol Cwm y Glo

Ma Mae'r Aelod Cabinet wedi cymeryd y penderfyniad i gychwyn y camau statudol i gau yr ysgol. Dyma'r amserlen:

Gweithred Amserlen amlinellol

Cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu (28 diwrnod) 22 Chwefror – 22 Mawrth 2019

Aelod Cabinet Addysg i ystyried adroddiad ar unrhyw wrthwynebiadau 26 Mawrth – 29 Mawrth 2019

Aelod Cabinet yn cyhoeddi taflen benderfyniad 2 Ebrill 2019

Penderfyniad yn weithredol 9 Ebrill 2019

Ysgol Cwm y Glo yn cau yn ffurfiol (yn ddibynol ar benderfyniad Aelod Cabinet Addysg) 31 Awst 2019

Adroddiad gan y Cyngorydd Charles Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.

Ffordd Crawia

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu ail-wynebu y rhannau gwaethaf o'r ffordd rhwng Y Sgwar ac Ysgol Brynrefail ym mis Chwefror. Bydd y gwaith yn dechrau ar 25ain o'r mis ac yn

para am oddeutu 5 diwrnod. Yn anffodus bydd hyn yn effeithio'r gwasanaeth 83 Deiniolen – Llanrug – Bethel – Caernarfon.

ais Cynllunio Cae'r Eglwys

Cafodd y cynllun diwygiedig ei ystyried gan bwyllgor cynllunio Cyngor Gwynedd ar 11 Chwefror. Y cynllun oedd: saith byngalo (un yn fforddiadwy) a dau 'semi'. Roedd y cynllun diwygiedig yn cynnwys gosodiadau oedd yn cynnig trefn parcio gwell na'r cynlluniau blaenorol, a threfn sy'n llai tebygol o arwain at broblemau parcio 'ar y ffordd'. Penderfyniad y pwyllgor oedd cytuno gydag argymhellid yr adran gynllunio i ddirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau cytundeb er mwyn sicrhau bod un o'r naw tŷ yn dŷ fforddiadwy

Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol

Penderfynwyd rhoi grant o £100 tuag at Glwb Hoci Caernarfon

Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon

Adroddwyd fod gwobr o £50 wedi ei dderbyn parthed y gystadleuaeth yma a phendefynwyd i

glustnodi'r arian ar gyfer tacluso'r Gymuned.

Adroddiad blynyddol ar waith y Cyngor Cymuned i drigolion

Nodwyd ei fod yn ddisgwyliedig i'r Cyngor baratoi taflen ar gyfer trigolion yn cadarnhau beth mae'r Cyngor wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a beth y gobeithir ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf. Penderfynwyd i baratoi taflen i'w dosbarthu.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadu canlynol:

- a) Cais materion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd cynt ar gyfer codi tŷ deulawr - Tir ger Bigil, Ffordd Yr Orsaf, Llanrug.
- b) Gwro ffordd fynediad at fodurdy domestig - Ty Isaf, Ceunant.
- c) Estyniad un llawr ynghyd a chodi modurdy a storfa newydd - Pantafof Bach, Llanrug.
- d) Rhyddhau amod 6 o ganiatad cynllunio (rhaglen waith archeolegol)

Fe wrthwynebwyd y cais canlynol

Trosi adeilad allanol yn anecs preswyl - Minffordd Cottage, Llanrug.

Apwyntio archwilwyr mewnol.

Penderfynwyd apwyntio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol ar gyfer archwiliad 2018-19


Clwb ieuenctid Llanrug.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda'r gwasanaeth ieuenctid i drafod y gwasanaeth ar gyfer 2019-20

Cwynion ar faw cŵn

Nodwyd fod cwynion wedi dod i law am faw cwn ger mynediad yr Ysgol Gynradd a bod arwyddion wedi'u derbyn gan Gyngor Gwynedd i'w rhoi fyny ar y ffordd wrth ymyl yr ysgol.

Penderfynwyd rhoi'r arwyddion i fyny ac yn unol a chynghor y swyddog o Gyngor Gwynedd, eu symud o gwmpas yr ardal o dro i dro.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Ar ben arall i'r lein



O ddoe i'r dyfodol?

Wel dyna ni, mae'r archwiliad cyhoeddus yn y Drenwydd wedi dod i ben o'r diwedd a does dim i'w wneud rŵan ond disgwyl am benderfyniad yr arolygwr. Gobeithio bod ganddo ddigon o synnwyr cyffredin i sylweddoli fod dyfodol pysgota yng Nghymru fel 'rydym yn ei adnabod mewn gwir berygl os bydd iddo ochri ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae cryn bryder o gwmpas y lle ar sut roedd pethau yn cael eu rhedeg yn y gwrandawriad! Ar ein hochr ni fel pysgotwyr 'roedd nifer o wirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser i gyflwyno'r ffeithiau fel ac y mae hi. Ond yn ein wynebu oedd bargyfreithwyr gyda thîm cefnogol proffesiynol. Dim yn gae chware cyfartal o gwbwl, ond yn brawf o styfnigrwydd cynrychiolwyr ein llywodraeth o gael ffordd eu hunain. 'Roedd ein cynrychiolwyr yn syfrdanol ar sut roeddynt yn cael ei croesholi, a'r ffordd yr oedd cynrychiolwyr CNC yn ceisio eu gwneud yn gelwyddog. 'Fe gawsom ddigon o dystiolaeth o ymddygiad y criw yma yn y broses o ymladd achos Llyn Padarn.'

Un bach arall gan fod y Cyfoeth Naturiol Cymru 'ma dan sylw – clywais y diwrnod o'r blaen fod ad-drefnu arall ar y gweill ac, o bosib, un o'r adrannau fydd yn gweld cwtogi fydd yr adran bysgodfeydd. Fel mae pethau ar y funud a chyn yr ad-drefnu mae'r adran yma wedi cael ei thorri i'r asgwrn yn barod a does dim ond llond dwrn o giperiaid i warchod holl afonydd a llynnoedd Gogledd Cymru. Ond cofiwch, mae digon o brif swyddogion o gwmpas y lle yn chwilio am rhywbeth i'w wneud, mae'r archwiliad yna yn y Drenwydd yn dystiolaeth o hyn.

Fe agorodd y tymor ar 3ydd Mawrth. Dyma'r diwrnod cyntaf ers blynnyddoedd lawer imi beidio mentro allan ar y diwrnod cyntaf, profedigaeth yn y teulu yn Aberystwyth oedd yr achos, ond ni fu imi golli dim gan ei bod yn eithriadol o oer a chryn lif yn y Seiont. Dyma ddyweddodd un wrthyf – 'Mi es allan ar ôl cinio, ond wnes i dim ond taflu'r bluen rhyw ddwywaith ar Lyn Tywod cyn ei throi hi am gartref reit sydyn.' Ac felly mae hi wedi bod, eira ar Eryri a gwynt a llifogydd. Er hynny, mae rhywrai yn i mentro hi, ond mi fuasai'n well iddynt fod adref o flaen y tân yn clymu rhyw bluen neu ddwy. Ia cofiwch mae tipyn y bluwyr da o gwmpas y lle ma, a dyma un dda glywais diwrnod o'r blaen pan o flaen y tân yng Nghwt Crawia. Ia clymu plu oedd y testun, dim byd newydd wrth gwrs, ond mae rhai clymwyr yn well na'i gilydd. Dyma un o'r criw

yn dweud – 'Ti'n cofio Ivy Art yn 'rysgol? Wel, dyna ti glymwr, dwi'n i gofio fo'n dweud wrthym ei fod wedi bod wrthi yn ei sied yn ben yr ardd, ac wedi gadael rhyw hanner dwsin o blu allan ar y fainc. Pan aeth yno bore wedyn 'roedd y plu wedi diflannu. Dyma glymu eto'r noson ganlynol, a bore wedyn 'roedd y plu wedi mynd unwaith eto. Wel dyma fynd ati y noson ganlynol, a gadael y plu ar y fainc drachefn, ond yna aros yn y sied, ac fel oedd hi'n tywyllu dyma na bry cop yn dod ar hyd y fainc a'u cario i ffwrdd – dyna chi pa mor naturiol yw fy mhlu i hogiau!' Da de.

Mis diwethaf fe roddwyd braslun o un o gynlluniau'r gymdeithas, sef datblygiad ar hen safle gwesty'r Newborough ym Mhenllyn. Does neb wedi datgan gwrthwynebiad hyd yn hyn, ond i fod yn deg does neb wedi cefnogi chwaith, felly dwi'n cymryd ei bod yn weddol ddiogel ceisio symud ymlaen heb gael gwrthryfel o wrthwynebiadau yn ein herbyn. Dyma, fel diddordeb, lun o'r hen westy dros gan mlynedd yn ôl, ac un arall o sut y buasai'n edrych o Bont Penllyn ar ei newydd wedd. Ond cofiwch cwestiwn arall fydd cael yr adran gynllunio i gymeradwyo'r cynllun.

Yn ystod y flwyddyn 'rydym yn gobeithio cynnal rhyw ychydig ddyddiau o roi cyfle i rai bysgota'r afonydd. Gan fod y ddeorfa ar lan yr afon yn Crawia, o bosib dyma'r lle mwyaf hwylus i wneud hyn. Gobeithiaf allu rhoi mwy o fanylion ar hyn dros y misoedd nesaf, ond os bydd yr ymateb rhywbeth tebyg i ddiwrnod o'r fath a gynhaliwyd yn Llwyn Brain (Seiont Manor) dair blynedd yn ôl, yna bydd yr ymdrech werth chweil.

Un siomedigaeth fawr sydd gennym fel cymdeithas yw clywed yr holl areithio sydd gan ein gwleidyddion a rhai tebyg ar y teledu, radio ar cyfryngau cymdeithasol. Fod eisiau denu mwy o'r boblogaeth allan i'r awyr agored a cael diddordeb amgenach na gemau cyfrifiadurol neu'r teledu. Wel dyma i chi gyfle i weithredu ar hyn, sef cefnogi'r Gymdeithas i ddenu canran o'n poblogaeth allan i gerdded a thaflu rhyw bluen neu ddwy ar y dyfroedd. Efallai y cewch rywbeth blasus i swper hefyd – os 'da chi'n sgotwr mor dda a fi di hynny, yn 'de!!! Ond peidiwch â dal eich gwynt y bydd cefnogaeth yn dod o unlle heblaw y Gymdeithas ei hun. Dwi'n fodlon mynd â rhai allan, fesul un, i roi rhyw dro bach am y torgoch. Dowch â'ch padell eich hun.

Cyfarfod Cyhoeddus i drafod menter gymunedol a chynnal ‘siop y pentref’

Daeth rhyw 50 draw i'r Neuadd Goffa i glywed am y datblygiadau diweddaraf yn yr ymgyrch ‘gymunedol’ parthed cynnal y Siop tu hwnt i Ebrill 2019. Y prif fater oedd ymateb i ddychweliad yr holiadur. Er na dderbyniodd pawb y cyfle i lenwi'r holiadur teimlwyd fod digon o ymateb i geisio dehongli sut roedd y ‘gwynt yn chwythu’. Roedd awydd i gynnal gwasanaeth y siop. Roedd nifer yn barod i gyfrannu symiau ariannol hyd at £10 – a dau yn fodlon cyfrannu £500. Roedd eraill – y mwyafrif ymysg yr oedran hyn – yn barod i wirfoddoli oriau o gefnogaeth penodol yn y siop.

O'r dewisiadau y drefn flaenoriaeth oedd siop, yna caffi yna tafarn. Roedd mwyafrif yn ffafrio ceisio cynnal yr adnoddau presennol yn Saron yn hytrach na defnydd o adnoddau'r Bedol. O'r llawr, cyhoeddodd Cadeirydd y Grŵp Llywio – y Cyng. Sion Jones – mai dyma'r trywydd bydd y grŵp – o rhyw 15 aelod – yn ei ddilyn.

Awgrymwyd y gellid cryfhau'r broses drwy ddenu pobl

â phrofiad broffesiynol yn y maes ariannol sy'n byw'n lleol i ymuno â'r grŵp llywio. Yna, drwy asiantaethau fel Mantell Gwynedd ddenu grant i logi arbenigwyr ym maes denu grantiau i greu canllaw bendant i'r grŵp, a gobeithio gynllun busnes cynaliadwy. Bwriedir cadw mewn cyswllt i sugno profiad grwpiau cymunedol eraill sydd eisioes yn bodoli yng Nghwynedd.

Y bwriad penodol yw denu grantiau cyfalaf unai i brynnu safle y siop neu digon o lif arian i gynnal ei rhentu. Os yn llwyddiannus yna gweithio ar y cynllun o redeg yr adnodd o ddydd i ddydd – ymddiriedolwyr, cyfranddalwyr, rheolwr, gwirfoddolwyr etc. Tipyn o waith fydd yn golygu cyd-dynnu a chyd-lafurio gan y gymuned, llwybr roedd y Cadeirydd yn ffyddiog gellid ei cherdded. O'r llawr, cyhoeddodd Cled y buasai yn fodlon ymestyn ei gyfnod yn y Siop nes fod y cynllun a'r cyfalaf ar seiliau cadarn. Gwerthfawrogwyd hyn, a bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol yn cyd-rannu datblygiadau gyda'r gymuned.

Cynnig gŵr busnes lleol

Mae Gari Wyn, perchennog cwmni ‘Ceir Cymru’ a pherchennog ‘Y Bedol’ yn awyddus i weld menter gymunedol yn llwyddo o fewn y pentref. I'r perwyl hwnnw anfonodd lythyr i'w ddarllen yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd i drafod y bwriad o sefydlu siop gymunedol. I'r rhai nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ac i'r rhai na chafodd ddigon o amser i ystyried yn llawn yr hyn sydd ganddo i'w gynnig, dyma gyhoeddi'r llythyr

“Fel perchennog Y Bedol hoffwn wneud nifer o bethau yn eglur i bobol pentref Bethel. Yn gyntaf hoffwn i bawb sylweddoli mai fy nod pennaf fyddai cadw y dafarn a'r siop fel sefydliadau byw ar gyfer dyfodol y pentref. Fel yr unig gyflogwr amlwg yn y pentref ac un sy wedi treulio 30 mlynedd yn cynnal busnes Ceir Cymru, mi fyddai gweld datblygiad newydd uchelgeisiol ar safle Y Bedol yn rhywbeth agos at fy nghalon.

Mae Ceir Cymru yn barod i roi ochor yr hen far i'r Bedol (sef y rhan sydd agosaf i'r garej) ar rent o £400 y mis i unrhyw fenter gymunedol fyddai yn cymryd y lle ar gyfer siop/tafarn/bwyty. Pe tase nin cael ein argyhoeddi bod yna dîm gweithgar brwd o fewn y fenter yna mae hin bosib y base ni yn caniatáu rhai misoedd di dâl hefyd ar y dechrau

er mwyn i'r fenter allu sefydlu ei hun.

Yn bersonol rydwin credu y byddai modd gwneud llwyddiant ysgubol o'r rhan yma heb orfod buddsoddi fawr ddim arian unwaith bod yr offer cegin mewn lle. Yn naturiol byddai rhaid cael rhwng 3-5 o staff a rheiny yn gweithio rhan amser o dan un rheolwr. Mae yna gymorth parod i'w gael gan y llywodraeth a'r cyngor ar gyfer mentrau o'r fath fel y gwyddoch (drwy arweiniad Y cynghorydd Sion Jones) ac fe ellid cael gostyngiad treth hefyd.

Petai y fenter eisiau prynu neu lesio unrhyw ran o lawr isaf y Bedol yna mi fyddwn hefyd yn fwy na pharod i drio helpu ac i ystyried telerau ffafriol i'r cyfeiriad.

Mae yma gyfle gwych i bentref Bethel arloesi mewn menter gymunedol ac mi hoffwn eto ddweud yn eglur nad ydi Ceir Cymru yn chwilio am elw allan o unrhyw ddatblygiad. Gobeithiaf y bydd y cyfarfod yn ystyried hyn ac yn cofio mod i bob amser ar gael i drafod a siarad.

Yn gywir

Gari Wyn”.

Mae croeso i unrhyw un o drigolion Bethel ymateb yng ngholofnau'r “Eco”.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Yn y cyfarfod i drafod dyfodol siop y pentref, (gweler adroddiad ar wahan) manteiswyd ar y cyfle i drafod y newidiadau yn y gwasanaethau bysiau lleol, yn benodol o ddiddymu gwasanaethau 82/83 gan gwmni Arriva. Y newid hefyd i amserlennu bysiau gwasanaeth Bangor – Deiniolen – Llanberis sy'n gwasanaethu Seion o'r safle ar ben Nant y Garth. Lleiswyd

ambell i anniddigrwydd parthed yr elfen ‘gwasanaeth’ y bysiau. Diffyg gwasanaeth addas yn oriau ‘teithio i'r gwaith’, amserlennu oriau'r dydd, diffyg bysiau wedi 6pm ac amserlen y penwythnos. Roedd cydnabod i wella'r ddwy elfen olaf fod eisiau cynllun mwy integredig yn y fro.

Y newyddion da ydyw fod Cyngor Gwynedd wedi arwyddo cytundeb newydd gyda chwmni bysiau eraill

i ddarparu ar gyfer yr ardal. Gobeithio bydd yr amserlen yn hysbys ac ar gael wrth y manau bysiau o ddiwedd y mis ymlaen. Mae bwriad i flaenoriaethu amserlen sy'n ateb gofynion ‘teithio i'r gwaith’ ac ymateb i'r galw mwyaf poblogaidd yn ystod y dydd. Bydd y newidiadau yma yn ymddangos gobeithio yn ymateb y trigolion i ymchwiliad gyfredol CG i wasanaethau bysus cyhoeddus. Gobeithio felly bydd trigolion

Bethel/Seion yn ymateb i'r holiadur yma. (Ar gael gan y Cyng. Sion Jones, neu ar wefan y Cyngor Sir).

DYMUNIADAU GORAU

Yn ysydod y mis bu rhaid i ambell un o'r pentref, o bob oedran, wynebu ymweliad ag amryw ysbytai. Fel ardal danfonwn ein cofion atoch. Fel dywedodd y bardd o Lanberis gynt gobeithio, ‘bydd gwella pan ddaw'r Gwanwyn.’

ER LLÊS Y FFOADURIAID



Unwaith eto eleni mae ein diolch ac edmygedd i Ella Jones , Cremlyn at ei chyfraniad elusennol clodwiw. Ers sawl blwyddyn bellach mae Ella wedi cyd-gysylltu casgliad dillad ar gyfer ffoaduriaid a thtrueiniaid yr aml fannau rhyfelgar. Eto, eleni bu'r ymateb yn rhyfeddol. Pan feddylwn am fannau fel Syria, anghofiwn yn aml mai nid mannau heulog 24/7 am flwyddyn gron sydd yma. Y mae eu gaeafau yn rhylllyd o oer, a'r cyfleusterau yn y canolfannau ffoaduriaid yn gyntefig iawn. Mae Ella hithau ar ran y dioddefwyr yn diolch i bawb â gyfranodd mewn unrhyw fodd. Diolch hefyd i Bethan a John am eu cymorth yn trosglwyddo y mynydd dillad i'r ganolfan didoli yn Nhremadog. Eleni, bydd y dillad yn cael eu trosglwyddo i ardal Lesbos ar arfordir Groeg. Dyma un o'r mannau glanio mwyaf niferus i rai sy'n herio'r moroedd i gyrraedd 'rhyddid' Ewrop. Diolch Ella.



MERCHED Y WAWR

Ar nos Fercher, Mawrth 13eg daeth aelodau'r gangen ynghyd yng Nghwinllan Pant Du, Penygroes ar gyfer ein dathliad Gŵyl Ddewi. Croesawyd ni gan Gwenan, ein llywydd, ac estynwyd cydymdeimlad â Meira, yn ei phroffedigaeth diweddar o golli brawd. Bu nifer o aelodau ym Mhant Du droeon ond dyma ymweliad cyntaf rhai o'r aelodau ers agor y cyfleusterau bwyta newydd ar y safle. Cafwyd pryd o fwyd blasus i goroni'r noson â phawb wedi eu plesio. Wedi'r gwledda cafwyd sgwrs ddiddorol gan Richard Huws y perchenog yn olrhain hanes adeilad gwreiddiol Pant Du yn ymestyn yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Yna iddo ef a'i wraig Iola brynnu y tŷ a'r tir o'i gwmpas yn 2003 a symud ymlaen i ddatblygu'r winllan a'r berllan eang. Gwerthfawrogyd y sgwrs yn fawr iawn a diolchodd Gwenan ar ran y gangen i Richard am noson 'flasus' ar sawl lefel. Mae'n ymddangos fod ambell i gynyrch y winllan wedi derbyn croeso cynnes hefyd. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Ebrill 10ed. Un o'n haelodau – Cecile – fydd y wraig wâdd a bydd yn ein diddori gyda'i dawn yn y grefft o drefnu blodau. Gofynnir i'r aelodau ddod â blodau gyda hwy, a chynhwysydd bach crwn plastig i ddal y trefniant blodau. Edrychwn ymlaen.



TÊ GŴYL DDEWI

Yr oedd y wledd arferol yn ein disgwyl yn y Neuadd Goffa. Unwaith eto roedd 'y genod' wedi darparu lluniaeth amrywiol. Diolch hefyd i'r sawl oedd wedi cyfrannu at y 'bwrdd gwerthu cacennau', ac wedi cyfrannu gwobrau at y raffl. Erbyn hyn mae'r 'genod' nid yn unig yn paratoi'r wledd yma ond hefyd y Tê Mefus, a'r Tê er lles Mudiad Mcmillan. Hwy hefyd sy'n gweini yn y pop-up caffi misol yn y Neuadd Goffa. Gwnaed elw o £400 yn yr ymdrech ddiweddaraf a rhennir yr arian rhwng Ymgyrch Ymchwil Multiple Sclerosis a Phwyllgor y Neuadd.

DIOLCH

I'r nifer ohonnoch â gefnogodd yr Eco gan dalu i dderbyn yr Eco am y flwyddyn nesaf yn barod. Mae'n ymddangos fod y mwyafrif yn blês â'r cynnwys, ond cofiwch nad ydym yn gwahardd unrhyw feirniadaeth neu awgrym i wella cynnwys. Eich papur CHWI yw Eco'r Wyddfa. Ar hyn o bryd mae 130 copi y mis yn cael ei werthu ym Methel, hynny yw rhyw 40% o'r tai. Oes modd ei godi tua'r 50% eleni?

Parhad BETHEL

CLWB BRO

Oherwydd i gyfarfod Gŵyl Ddewi gael ei ddathlu yn yr ysgol ddiwedd Chwefror, trefnwyd cyfarfod 'bonws' i'r aelodau ddechrau Mawrth. A 'bonws' yn wir gafwyd. O flaen criw da, cafwyd darlith amserol iawn gan y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda. Ei destun oedd Enwau Lleoedd, ac aeth a ni ar daith nid yn unig hyd ei Ddyffryn Ogwen enedigol, ond i'n bro ni yma ym Methel, hyd at Lanrug a Chaeathro. Cae Hob, Tyddyn Gwndwn, Prysgol... Cyfeiriodd yn naturiol nad oedd y mwyafrif o'r enwau cynhenid i'w cael ar fapiau ordnans cyfoes. Enwau oedd y cymoedd, llechweddau, cynefinoedd, cilfachau a drosglwyddwyd ar lafar o un cenhedlaeth i'r llall. Roedd hyn yn wir ymysg cenedlaethau o ffermwyr mynydd ble roedd eu cynefinoedd yn ymestyn hyd lethrau'r Carneddau. Weithiau, enw penodol person, neu natur tirwedd, neu ddigwyddiad penodol oedd yn gyfrifol am fathu'r enwau. Dro arall, fel ym Methel, Ebeneser (Deiniolen) yna enw capel roddai'r allwedd. Llifa'i yr hen enwau yn rhwydd o wefusau'r meistr yma o ddarlithydd. Pob enw yn ein herio i ddyfalu gwreiddyn yr achos. Ond yr oedd elfen drist, amserol hefyd i'r ddarlith. Cyfeirwyd at y tueddiad gyfoes o 'gyfieithu' yr enwau cynhenid a hynny yn hollol anaddas. Yn anffodus, yr enwau 'ffug' yma ddaw yn ddefnydd naturiol o fewn dim o amser. Daeth Llyn Bochlyd yn Australia Lake. Rhai o'r llechweddau a'u henwau cynhenid yn troi'n Nameless Cwm gan yr Ordians. Ble mae'r Ddraig Dderw uwchben Pont y Pandy eisioes mae Llwybr Parc Moch wedi troi yn Blue Bell Path, ac arwydd yn dynodi hynny. Onid pethau o'r math yma a daniodd yr ymgyrch dinistrio arwyddion ffyrdd? A wellodd statws i'r iaith o gwbwl. 'Iaith ar wal yw dal dy dir.' Trist oedd cofnodi nad oedd ein Cynulliad yn barod i gefnogi cynnig gan Dai Lloyd A.C. a'i is-bwyllgor a Chymdeithas Enwau Llefydd Cymru i warchod yr enwau cynhenid drwy ddeddf.

Diolchwyd i Ieuan ar ran y clwb gan Dafydd Williams. Bydd y cyfarfod nesaf, Ebrill 2il. ar yr amser arferol, a'r siaradwr gwadd bydd Huw Price Hughes, Bethel. Croeso I bawb.

Un cof a roed i'n gofal, – ac un graig
i'n gwrogaeth ddyfal.

Un hanes yn ein cynnal,
un darn o dir yn ein dal.

Ieuan Wyn

OEDFAON EBRILL

Cysegr : 7/4 Islwyn Hughes 14/4 Gweinidog 21/4 Richard Lloyd Jones 28/4 Gweinidog

Bethel : 7/4 Huw Tegid Roberts 14/4 Parch. Cledwyn Williams (11am) 21/4 Parch. Gerallt Lloyd Evans 28/4 DG

Saron : 7/4 Eifion Williams 14/4 O.T. Hughes 21/4 Gwynfor Williams 28/4 Parch. Richard Gillion (Cymun)

GWOBRARBENNIG EBRILL

Yr ydym fel pentrefwyr yn ymuno gyda phlant a theulu Emyr Wyn a Jean, Wenallt wrth estyn ein llongyfarchiadau iddynt pan ddaw y 'diwrnod mawr' ar Ebrill 26. Byddent yn dathlu penblwydd priodas aur, hynny yw 50 mlynedd. Dymunwn pob llwyddiant ac iechyd iddynt yn y daith tuag at y dyfodol. Yn dathlu yr un achlysur ar yr un diwrnod mae ffrindiau mawr Emyr a Jean, sef Yvonne a Charles Thomas, Llanfairpwll. Rhwng y pedwar yn cyrraedd 'cant heb fod allan' mae'n siwr bydd hen hel atgofion ar y diwrnod.

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwy

Chwaraeon

GWLAD! GWLAD!

Do, fe ddaeth y tlysau i gyd i Gymru fach gyda diwedd glo'r Gystadleuaeth Chwe Gwlad ryfeddaf. Y wlad a roddodd i ni Gareth, Barry, Phil, Gerald, Shane ... yn ennill y bencampwriaeth drwy sgorio y nifer leiaf o geisiadau (10) yn hanes unrhyw bencampwyr. Ond, Cymru yn ennill oherwydd eu rheolaeth, o dactegau o gynllunio a ffitrwydd eithriadol. Y tim ryngwladol yn llawn o chwaraewyr sy'n cael eu gwawdio o Sadwrn i Sadwrn am berfformiadau di-fflach eu rhanbarthau. Y garfan hefyd tua diwedd y bencampwriaeth oedd a chysgod ail-wampio y drefn ranbarthol Gymreig. Sôn am uno'r Scarlets a'r Gweilch. Chwaraewyr yn colli bywoliaeth oherwydd y galw i dorri'r brethyn cyflogaeth o ran rhif a chyflog i'r hyn sy'n cyfateb i'r arian a gynhyrchir gan dorfeydd simsan. Sôn am ranbarth i'r Gogledd. Pam ddylsai 'hogia Sowth' symud i fyny yma i chwarae. I'r Gog. Dim ots am Ffrainc a Lloegr – i'r Gog!

Ond, gwisgo'r crys coch ac mae'r trawsnewidiad yn rhyfeddol. Disgyblaeth. Trefniant amddiffynol orau yn y byd. Dim yn colli. Ffitrwydd o lefel rhyfeddol. Carfan glos, yn cyd-barchu eu cyd-chwaraewyr. Tim yn gweld lle i wella wedi pob perfformiad. A thim yn cael ei harwain gan ddau fydd yn cymryd eu lle ar lwyfan anafwrolion y gêm yng Nghymru.

Nid oedd gan Seland Newydd fawr o hyder yn Warren Gatland fel hyfforddwr cenedlaethol yn ei wlad ei hun. 12 mlynedd yn ôl derbyniodd yr her o hyfforddi Cymru – ar y pryd yn rhif 10 yn rhestr detholion y byd. Roedd wedi dangos ei ddawn eisioes ar lefel clwb y Wasps. Llwyddiant yn Lloegr ac Ewrop. Datblygu chwaraewyr. Creu systemau chwarae yr oedd y chwaraewyr yn gyffyrddus yn eu dilyn. Gweld athrylith Sean Edwards fel y trefnydd amddiffynol oedd yn y Wasps gydag ef. Er gwrthwynebiad o sawl cyfeiriad yng Nghymru gweld athrylith tawel, pendant, styfnig ar brydiau Rob Howley. Ac i roddi'r haearn a'r tân ym mol y blaenwyr pwy well na Robin McBryde na gymerodd un cam yn ôl dros Gymru unrhyw adeg. Creu tim o reolwyr yn cyd-dynnu tua'r un nod. Dyma'r tim hyfforddi mewn deuddeng mlynedd sydd wedi ennill tair camp lawn a gosod Cymru yn ail mysg detholion y gwledydd. A dawn mwyaf Gatland oedd cymryd y pwysau oddi ar y chwaraewyr. Gadael i Eddie Jones lenwi'r colofnau, ac ymfalchio yn llwyddianau Cymru. A chofio ei gyfraniad gyda'r Llewod hefyd. Yn sicr, am Gatland gallwn ddweud, 'mapio'i lwydd mae y Gamp Lawn' neu fel dywed Karen Owen mewn chwip o gywydd, 'Uffar o wariar Warren'.

Yna, yn ddios ein Bendigeidfran sy'n pontio dyhead y tim hyfforddi â pharch mewn perfformiad y garfan. Alun Wyn Jones. Cawr, arweinydd tawel, pendant. Arwain o'r blaen. Un i'w ddilyn drwy ddŵr a than. Un a wel y pictiwr cyfan o adlewyrchu agwedd broffesiynol i'r gêm. Parchu'r gêm, mwynhau'r llwyddiant. 135 o gapiau rhwng Cymru a'r Llewod. Anhygoel ar gyfnod ble mae'r gêm mor gorfforol.

Rwan daw'r her fwyaf. Fel prif dim Ewrop ar Gymru fach bydd y pwysau o herio y Teirw Duon yng Nghwpan y Byd yn Japan. 30 fydd yn teithio yn y garfan derfynol. Bydd rhai o'r garfan bresennol yn colli allan. Yn sicr, bydd anafiadau yn siwr o goncro eraill. Bydd galw am gynnwys Falateau a Rhys Webb. Sut bydd y teulu agos yn ymateb i 'golli' ambell aelod fu yn y ffosydd gyda'u gilydd? Cofiw'n am arwriaeth tim Gatland/ Warburton yn cyrraedd y rownd gyn-derfynol cyn y cerdyn coch dadleuol. A yw'r garfan bresennol yn gryfach yn feddyliol na charfan Warburton. Cymru fach y tim nad ydynt yn gwybod sut i golli. Amser a ddengys. Gyda chyfres y Lludw ac ymdrechion tim pêldroed Cymru yn ymgiprys am bencampwriaeth Ewrop, fed ddaw Medi yn gyflym. Rhaid i mi fod yn ddiplomatig iawn drwy'r haf, a gadael i Mary ddewis ambell i raglen teledu. Ond bydd undod acw, fel drwy Gymru gyfan pan ddaw Medi a gobaith o gyfeirio at weld Cymru fach yn wlad yr 'haul yn gwawrio' ar oes aur ddiymwad rygbi Cymru.

NEWIDIADAU – ER GWELL?

Cyfeirio ydwyf at fwriad C.B.D. Cymru i ail strwythuro y pyramid bêl-droed gynghreiriol yng Nghymru. Pawb i ffendio’i lefel ddelfrydol fu’r drefn ar hyd y bedlan. Ond rwan mae’r pwyslais yn symud. Cyfleusterau ar ac oddi ar y maes bydd y llinyn mesur bellach. A gall hyn fod yn hoelen farwol i dimau lleol Llanrug a Llanberis. Dyma ddau glwb uchel eu parch ledled y Gogledd ac iddynt hanes lwyddianus. Dau dim a chwaraeodd yng Nghynghrair Caernarfon a’r Cylch, Cynghrair Gwynedd yna cyrraedd prif adran y Welsh Alliance – dwy lefel o dan y Gynghrair Genedlaethol. Ble caed croeso ar Eithin Duon a Maes Padarn dros y blynyddoedd. Gemau i’w cofio. Gemau Cwpan a Thlws Cymru.Eithin Duon a’i ogwydd o un ochr i’r llall. Maes Padarn yn drybolau o fwd am dri chwarter y tymor ac yna’n crasu’n haearn Sbaen ddiwedd y tymor. Ond dyma gartref dau glwb ffwtbol go iawn. Hogia ffwtbol ar y pwyllgorau. Mewn amser o gynni denu busnesau lleol i’w nodd. Tu fewn i’w gallu arianol, miloedd o dicedi raffl, ac ambell i grant yn gosod adnoddau derbyniol. Cwt Nissan Llanber yn troi’n hen swyddfeydd pren gwaith Dinorwic ac yna adeilad addas cyfoes. Yr un yn Eithin Duon. Lefelu’r cae. Hen gwt newid pren yn y gornel yn diflannu a stafelloedd newid pwrpasol yn ei disodli. Llafur cariad gan wirfoddolwyr i gynnal y caeau. Yn Eithin Duon cerddedfa bwrpasol llain galed yn amgylchynu’r cae.

Ond na, meddai’r F.A. Mae’r caeau yn rhy fach o ran maint. Nid oes eisteddle i ddal 100 o gefnogwyr. Meddyliwch am Eithin Duon a Ffordd Padarn. Sut gellir ehangu y meysydd. Nid oes cyfalaf gan y clybiau i bwrcasu darn arall o dir. Os daw y pendyrfyniadau i fwcwl beth fydd hanes y ddau glwb? Yn sicr, ni welir uchelfannau yr Huws Gray. Mae nifer o’r clybiau yn y gynghrair honno yn gyn-aelodau o’r Gynghrair Genedlaethol, ac wedi elwa o’r cyfnod a grantiau ar gael i feithrin cyfleusterau. Bydd Llangefni yn dderbyniol felly os ennillir dyrchafiad.

Fy mhryder i y bydd y syniad o gynghreiriau led-led y gogledd yn diflannu o dan lefel yr Huws Gray. A welwn i Gynghrair Cylch Wrecsam yn aros? Yna, dwy neu dair adran o Gynghrair y Dwyrain a dwy adran o Gynghrair Gwynedd ar ei newydd wedd.Mae rhai clybiau yn gwthio am gynghreiriau mwy lleol eisioes, gan gwyno am y costau uchel i dalu am ddyfarnwyr/ llimanwyr yn rhai gemau. Roedd bil un gêm yn Llanrug yn £140! A beth wedyn am y clybiau sy’n boddi ar waelodion y cynghreiriau presenol. Ffyddlon, ond mynd i’r unlle.Eisioes aeth Deiniolen a Bethel.Caeau yn y pentref ble bu gwario sylweddol ond dim timau.Ie, amser pryderus sydd o’n blaenau a sefyllfa cadarn y bêl-droed yn Nyffryn Peris yn newid ond nid o’u hunan ddewis.

HOLI

Cefais ginio Sul ychydig wythnosau yn ôl mewn tŷ yn Amlwch.Wedi’r bwyd blasus daeth gwraig y tŷ ac ambell lun o’i brawd a hanai o ‘Stiniog. Roedd y lluniau yn dangos llun ei brawd fel capten Llanberis ddechrau’r 50a’u. D.W. Thomas. Cawr o ‘centre half’ ac un tra’n chwarae i Stiniog a Port a deithiodd fel ‘reserve’ i dim amatur Cymru ond heb ennill cap.Roedd ei chwaer yn dweud fod rhyw bedwar o hogiau ‘Stiniog yn chwarae i Lanber yr adeg hynny. Dywedais wrth y chwaer y buaswn yn cyfeirio at ei brawd yn yr Eco. Oes rhywun yn cofio D.W. Thomas. Os cywir, pam roedd hogiau ‘Stiniog yn cael eu denu i Lanber? Gadewch i mi wybod ac mi gysylltaf gyda’i chwaer.

Digwyddiadau Parc Padarn a Llyn Padarn, Llanberis

Bydd tri o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod Ebrill:

- Cystadleuaeth Beicio Mynydd “Go Race MTB” yn cael ei chynnal yn ardal y lagwns a thomenni llechi’r Gilfach Ddu gan Beicio Cymru ar Sed a’r 6ed.
- Cystadleuaeth Caiacio a Chanwio yn ardal y lagwns ac ar Lyn Padarn gan Coleg Menai ar yr 11eg.
- “Rowing Camp” yn ardal y lagwns a Llyn Padarn gan Glwb Rhwyfo Llandaf o’r 15fed hyd y 18fed.

Bydd rhestr o ddigwyddiadau Mai ar gael yn y rhifyn nesaf.

RHEDEG MYNYDD

Mae’r tymor rasys mynydd wedi dechrau o ddifrif yn ystod mis Mawrth. Cynhaliwyd ras Pipe Dream yn Nhrefriw, ond yn anffodus, ac er diogelwch, bu’n rhaid gohirio Ras Moel Wnion yn Rachub oherwydd y tywydd echrydus a ddioddefwyd dros y penwythnos.

Ddechrau Ebrill bydd cyfres Rasys Nos Fawrth yn cychwyn ac yn parhau hyd ganol Mehefin. Dyma’r chweched ar hugain yn y gyfres, ac y mae wedi tyfu mewn poblogrwydd dros y chwarter canrif diwethaf gan feithrin talentau lleol sydd wedi cael llwyddiant rhyngwladol. Mae deuddeg ras yn y gyfres, a rhaid cystadlu mewn pump ohonynt i gael siawns o ennill gwobr. Pris cystadlu yw £2 y ras i oedolion a £1 i ieuenctid, ond o dalu ymlaen llaw yn y ras gyntaf, gellir cael hawl cystadlu ym mhob ras am bris deg. Bargaen o gysidro beth yw prisiau cystadlu mewn rhai o’r rasys ‘masnachol’ sy’n cael eu cynnal yn Eryri bellach.

Unwaith eto eleni, mae Cwmni Joe Brown yn nodd rasys yr oedolion a chwmni Caernarfon Tyres yn nodd rasys yr ieuenctid. Bydd y ras gyntaf, sef Moel Tryfan, yn cael ei chynnal o Ganolfan y Fron (yr hen ysgol) am 7.00 ar Ebrill 2il. Gweddill rasys mis Ebrill yw: 9fed Abergwyngregyn; 16eg Foel Lus, Dwygyfylchi; 23ain Tri Chopa, Penmaenmawr a 30ain Pen Dinas, Nant Peris. Mae’r rasys hyn yn cychwyn am 7.15. Cofiwch gyrraedd yn ddigon cynnar i gofrestru.

Yn ystod y mis hefyd cynhaliwyd Noson Wobrwyo Clwb Rhedwyr Eryri, gyda nifer o redwyr o’r fro yn ennill gwobrau. Rhannwyd y categorïau i Rasys ffordd, Rasys Mynydd a Rasys Traws-gwlad, ac yr oedd gwobrau ym mhob categori i redwyr lleol. Arwel Lewis (Bethel) enillodd gategori rasys ffordd, gyda Steffan Evans (Penisarwaun) yn ail. Alwyn a Maggie Oliver (Dinorwig) enillodd grwp rhedwyr dros 70 oed yng ngategori rasys mynydd, a daeth Miranda Grant (Llanberis|) yn drydedd ferch yng nghategori traws-gwlad. Ymhlith y Gwobrau Arbennig roedd Bronwen Jenkins (Waunfawr) yn ennill Athletwraig y Flwyddyn, Callum O’Donnell (Bethel) yn ennill Tlws Dewi Tomos am athletwr ieuanc y flwyddyn, a Dyfed Thomas (Llanrug) yn ennill gwobr am Gyfraniad Arbennig i’r Clwb. Llongyfarchion i bawb – a chynrychiolaeth dda o bentrefi’r fro!



Chwaraeon

Tri Cwpan Gogledd Cymru i Glwb Pel-fasged Celts Caernarfon



Gyda llawer o'i ieuencid yn byw yn ardal yr "Eco" mae Clwb Pel-fasged Celts Caernarfon wedi cael llwyddiant rhyfeddol yng nghystadleuthau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Brailsford, Bangor yn ddiweddar.

Ar ddydd Sul, Mawrth 3ydd, chwaraeodd timau dan 14 oed a dan 16 oed yn nhrnamaint Cwpan Iau Pêl-fasged Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Brailsford, Bangor. Roedd y rhai dan 14 oed yn edrych i wella ar ddod yn ail yn y Cwpan y llynedd. Perfformiodd y tîm yn ardderchog yn ystod y twrnamaint gan ennill tair o'u pedair gêm. Collwyd gêm olaf y dydd o ddau bwynt i Bebington Bulldogs. Er gwaethaf y golled agos, roedd eu perfformiadau blaenorol wedi sicrhau eu bod yn diweddu'r twrnamaint fel enillwyr Cwpan 2019 Gogledd Cymru Dan 14 oed. Roedd Morgan Gwilym Jones, Sam Woodward, Dafydd Jones, Ben Jones-Ellis a Sam Booth yn aelodau o'r tîm a gododd y cwpan.

Ysbrydolwyd y tîm dan 16 oed gan eu llwyddiant, ac aethant un yn well gan ennill eu holl gemau yn y twrnamaint. Golyga

hynny eu bod hefyd yn enillwyr Cwpan Gogledd Cymru dan 16 oed ar gyfer 2019. Yn rhan o'r tîm roedd Guto Whiteside Thomas, Iolo Jones, Leon Sinclair Hughes, Gwion Williams, Connor Roberts a Morgan Rees Jones.

Y Sul canlynol roedd y tîm dan 18 oed yn chwarae yng Nghwpan Gogledd Cymru yng Nghanolfan Brailsford, Bangor. Roedd hon yn gystadleuaeth agos iawn, gyda nifer o'r timau yn gyfartal o ran safon, ond tim Celts Caernarfon aeth a hi, gan ennill pob gem ac efelychu'r tîm dan 16 oed y Sul blaenorol. . Roedd Iolo, Guto a Connor hefyd wedi eu galw i'r tîm dan 18 oed ac roeddent yn allweddol i lwyddiant y tîm hwnnw.

Mae pel-fasged yn ennill ei phlwyf yn yr ardal ar hyn o bryd, gyda nifer helaeth o blant ysgolion cynradd yn mynychu sesiynnau blasu yn y Ganolfan Hamdden, Caernarfon. Mae Clwb Celts Caernarfon yn cynnal pedwar tîm yng Nghynghrair Gogledd Cymru: oedolion, dan 18 oed, dan 16 oed a dan 14 oed.